CYNGOR ADEILADAU HANESYDDOL CYMRU

# Cyngor Adeiladau Hanesyddol CYMRU

## 45ain

### ADRODDIAD BLYNYDDOL

2000–2001

Cyhoeddwyd gan
Gynulliad Cenedlaethol
Cymru yn unol ag
Adran 2(8) Deddf
Adeiladau Hanesyddol
a Henebion 1953,
fel y'i cymhwysir gan
Adran 3 y Ddeddf honno
ac fel y'i diwygiwyd gan
adran 45 Deddf
Llywodraeth Cymru 1998

© Hawlfraint y Goron 2000

ISBN 1 85760 137 8

Cyhoeddwyd gan Cadw: Welsh Historic Monuments

*Clawr:* Cofgolofn David Davies o flaen cyn Swyddfeydd Bwrdd Dociau'r Barri, Y Barri.

Adeiladau'r Goron,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

At Sylw
*Ms Sue Essex*
**Gweinidog dros yr Amgylchedd**

Mae'n dda gennyf gyflwyno i chi yr adroddiad hwn ar waith Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru ar gyfer y flwyddyn 2000–2001.

Bu'n flwyddyn brysur ac mae'n galondid mawr i ni nodi, ym mlwyddyn gyntaf yr unfed ganrif ar hugain, fod yna gryn ddiddordeb o hyd yn y gwaith o warchod ein gorffennol. Fel cynghorwyr arbenigol statudol y Cynulliad ar faterion yn ymwneud ag adeiladau hanesyddol, buom yn cynghori Cadw ar ystod o faterion ond, yn benodol, ystyriwyd 209 o geisiadau gennym am grant i atgyweirio adeiladau hanesyddol, ac o ganlyniad cynigiwyd cymorth ariannol i 116 o'r ceisiadau hyn. Rydym yn falch ein bod wedi helpu i gadw'r momentwm o ran y gwaith sy'n cael ei wneud i atgyweirio a gwarchod rhai o adeiladau pwysicaf Cymru. Rydym yn ffyddiog ein bod wedi helpu i wneud gwahaniaeth — heb dderbyn grant byddai rhai o'r adeiladau hyn wedi bod dan gryn fygythiad neu byddent wedi'u colli i'r cenedlaethau sydd i ddod.

Rydym yn falch bod proffil yr amgylchedd hanesyddol yn parhau i wella a bod pobl yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r ffaith bod adeiladau hanesyddol yn chwarae rhan bwysig tuag at gyfrannu at amgylchedd gwell. Yn fwy na hynny, mae atgyweirio, adnewyddu ac ailddefnyddio adeiladau yn rhai o ardaloedd hanesyddol pwysig Cymru yn cyfrannu cryn dipyn at adfywio'r economi a'r gymdeithas yn lleol yn ogystal â darparu enghraifft berffaith o adnodd cynaliadwy. Mae sicrhau amgylchedd gwell ac economi well wrth wraidd amcan cyffredinol y Cynulliad o greu Cymru well ac rydym yn rhoi pwys mawr ar y ffaith ein bod yn gallu chwarae rhyw ran yn y broses hanfodol hon.

Yn ystod y flwyddyn gwnaed argymhellion ar ystod eang o adeiladau hanesyddol. Bu'n bleser arbennig gennym ystyried nifer dda o adeiladau brodorol llai o faint a hefyd rhai sydd â phwysigrwydd arbennig yn hanes Cymru. Bu'n bleser mawr gennym nodi i dirwedd ddiwydiannol Blaenafon gael ei chydnabod yn safle Treftadaeth y Byd eleni — bu'n dda gennym argymell y dylid cynnig grant i nifer o adeiladau pwysig sy'n rhan o'r dirwedd hon er mwyn eu hatgyweirio a'u haddasu.

Rydym yn parhau i ystyried pob cais yn drylwyr yn erbyn y meini prawf a nodir yn ein nodau a'n hamcanion cyffredinol, a amlinellir yn Ychwanegiad Ch. Edrychwn ymlaen at gynghori'r Cynulliad ymhellach yn ystod 2001–2002.

**Thomas Lloyd**
*Cadeirydd*

# Cynnwys


| | *Tudalen* |
|---|---|
| Aelodau'r Cyngor | 6 |
| Arolwg o Fusnes y Flwyddyn | 7 |
| • Ymweliadau | 7 |
| • Ceisiadau a Ystyriwyd yn ystod y Flwyddyn | 11 |
| • Astudiaethau Achos | 13 |
| • Mentrau/Materion cyfredol | 19 |
| • Costau CAH | 23 |
| • Cydnabyddiaethau | 23 |
| Ychwanegiad A — Crynodeb o Grantiau | 25 |
| Ychwanegiad B — Grantiau ar gyfer Adeiladau Eithriadol | 27 |
| Ychwanegiad C — Grantiau Ardaloedd Cadwraeth | 39 |
| Ychwanegiad Ch — Rôl a Chyfeiriad Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru yn y dyfodol | 42 |
| • Atodiad A | 45 |
| • Atodiad B | 46 |

## AELODAU'R CYNGOR

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Thomas Lloyd Ysw MA FSA |
| Aelodau: | Dr Prys Morgan MA DPhil FRHistS FSA DL<br>Dr Simon Unwin BSc BArch PhD RIBA<br>Mrs Sara Furse DipArch<br>Dr Eurwyn Wiliam MA PhD FSA<br>Miss Elizabeth Evans DipArch RIBA<br>Dr Roger Wools BArch PhD DipCons (Caerefrog) RIBA |
| Aseswyr Pensaernïol: | Douglas Hogg Ysw RIBA ARIAS FSA Scot<br>Robert Wall Ysw BArch BSc (Anrh) |
| Ysgrifennydd: | Mrs Jean Booker |
| Ysgrifennydd Cynorthwyol: | Kenneth Alexander Ysw<br>(tan fis Gorffennaf 2000)<br>Mrs Irene Allen<br>(ers mis Tachwedd 2000) |

AROLWG O FUSNES Y FLWYDDYN

## Ymweliadau

Cyfarfu'r Cyngor bum gwaith yn ystod y flwyddyn mewn mannau cyfarfod yn ardaloedd Dinbych-y-pysgod, Biwmares, Llanandras a Chaerdydd.

Yn gysylltiedig â'r cyfarfodydd hyn, ymwelwyd â nifer o ymgeiswyr am gymorth. Gwelwyd hefyd y gwaith a oedd wedi'i gwblhau ar rai adeiladau a dderbyniasai grant adeiladau hanesyddol.

Ymweliad â **Doc Penfro** oedd un o'n hymweliadau cyntaf eleni. Roeddem wrth ein bodd bod Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi cymeradwyo'r cynllun a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Penfro o dan Fenter Treftadaeth y Dreflun (MTD) Cronfa Treftadaeth y Loteri. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n benodol ar ddociau hanesyddol y Llynges Frenhinol a'i amcan yw sicrhau adfywiad economaidd a chymdeithasol yn lleol trwy warchod adeiladau hanesyddol. Mae sawl partner cyllido, gan gynnwys Cadw, yr awdurdod lleol, Awdurdod Datblygu Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri, gyda'r olaf yn dyrannu'r grant uchaf posibl — £2m — o dan Fenter Treftadaeth y Dreflun ar gyfer y cynllun hwn. Mae'r dociau'n cynnwys nifer o adeiladau pwysig, megis Capel y Garsiwn, siediau Sunderland a gatiau'r dociau, a bu'n bleser gennym gefnogi'r cymorth grant a roddwyd gan Cadw. Edrychwn ymlaen at weld yr adeiladau hyn yn y dociau wedi'u hadfer, ynghyd â gwelliannau i'r dref yn gyffredinol, gwelliannau a fydd o gymorth i godi hyder yn lleol, i symbylu datblygiad newydd ac i annog pobl i ailddefnyddio adeiladau sydd ar hyn o bryd yn wag. Mae hyn yn siŵr o gymryd tipyn o amser — o gofio mai oes arferol cynllun MTD yw pum mlynedd — ond edrychwn ymlaen at ddychwelyd i Ddoc Penfro i weld yr hyn a gyflawnwyd.



Chwith: *Tŷ llawfeddyg y llynges, Doc Penfro.*

Dde: *Ystafell y llys yng nghyn Neuadd y Sir, Llanandras (Llety'r Barnwr, Llanandras).*

Tra buom yn Sir Benfro edrychwyd ar **Eglwys Hodgeston, Llandyfái.** Mae'r eglwys restredig Gradd II* hon yn gapel rhydd anarferol sy'n dyddio o'r Oesoedd Canol, ac mae'n cynnwys cangell bwysig o'r bedwaredd ganrif ar ddeg â sedilia a phisgina addurnedig. Cynhaliwyd y gwasanaeth olaf yn yr eglwys ym mis Gorffennaf 1999 ac nis defnyddiwyd ers hynny. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi datgan ei bod yn segur ac roedd Cyfeillion yr Eglwysi Digyfaill yn ystyried ei chymryd o dan eu gofal. Gofynnodd y Cyfeillion i ni am ein barn ynglŷn ag a oedd yr adeilad hwn o werth hanesyddol neu bensaernïol eithriadol ac yn ymgeisydd teilwng ar gyfer eu Peirianwaith Eglwysi Segur. Cadarnhaodd ein haelodau fod yr eglwys yn bwysig o ran ei phensaernïaeth. Yn ddiweddarach, rhoddwyd Hodgeston yn ffurfiol i'r Cyfeillion gan yr Eglwys yng Nghymru ac ymgymerwyd â gwaith atgyweirio cychwynnol.

Er ein bod yn cydnabod rhinweddau'r eglwys segur hon, mae'n bleser gennym bob amser ymweld ag eglwysi a chapeli hanesyddol sy'n dal i gael eu defnyddio i addoli ynddynt fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Roeddem wrth ein bodd o weld y gwaith a gwblhawyd ar **Eglwys Cadog Sant, Lawrenny**, Sir Benfro, gyda'i gwaith rendro a'i gwyngalch, a'r gwaith atgyweirio i **Eglwys Sant Andras**, **Llanandras**, eglwys hardd restredig gradd II*. Ym 1997 argymhellodd y Cyngor y dylid rhoi grant i Eglwys Sant Andras i atgyweirio'r gwaith cerrig, y system dŵr glaw a'r ffenestri.

Tra buom yn **Llanandras**, dangosodd yr awdurdod lleol i ni'r gwelliannau a oedd wedi'u gwneud i adeiladau yn yr ardal gadwraeth a hynny mewn partneriaeth â Cadw o dan Gynllun y Dref Hanesyddol. Llwyddodd y cynllun i wneud cryn dipyn o wahaniaeth i olwg yr ardal gadwraeth. Ar ôl y flwyddyn gyfredol, mae'r awdurdod yn bwriadu gohirio'r cynllun am sawl blwyddyn ac yna ei ail-lansio gyda chynllun cadwraeth a strategaeth gyflawni benodol fel sy'n ofynnol yn ôl dull Cadw o roi grantiau, dull sydd â mwy o ffocws ac sydd wedi'i dargedu'n well.

Yn yr ardal sy'n dod o dan Gynllun y Dref ymwelwyd â **chyn Neuadd y Sir**, adeilad Clasurol mawr ac urddasol sy'n adeilad rhestredig gradd II*. Fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol ym 1826 i'w defnyddio at ddibenion cyhoeddus a dinesig, gan gynnwys fel Llys a Llety Barnwr, a rhoddwyd y gorau i'w defnyddio ym 1970. Awgrymodd ei pherchenogion, Cyngor Sir Powys, ei hailddefnyddio mewn ffordd ddychmygus fel amgueddfa system y llysoedd. Barnodd y Cyngor fod yr adeilad yn un eithriadol ym mis Ionawr 1997 ac argymhellwyd y dylid cynnig grant ar gyfer ystod o waith, gan gynnwys adnewyddu'r offer dŵr glaw a'r cafnau uchel, gwaith i atal pydredd sych a phydredd gwlyb, adnewyddu ffenestri a gosod ffenestri newydd, ac adnewyddu'r gasolier gwreiddiol.

Bu'r amgueddfa yn hynod lwyddiannus, a rhan fawr o'r llwyddiant hwnnw fu'r ymweliadau addysgol gan ysgolion, ymweliadau a fwynhawyd yn fawr gan y disgyblion. Mae'n rhoi cipolwg tra diddorol ar y gwahaniaeth rhwng bywydau'r bobl a fu'n byw i fyny'r grisiau ac i lawr y grisiau, yn ogystal â'r system gyfreithiol ar y pryd. Roedd gwrthgyferbyniadau tra amlwg yn nhaith y carcharorion o'r celloedd tywyll a chyntefig i olau cryf ac urddas ystafell y llys, i fyny'r grisiau.



Dde: *Y gasolier wedi'i adnewyddu yng nghyn Neuadd y Sir, Llanandras (Llety'r Barnwr, Llanandras).*



Mae'r adeilad hefyd yn enghraifft dda o sut y gellir addasu adeiladau hanesyddol er mwyn hyrwyddo mynediad i bobl anabl. Mae'r prif rannau y tu mewn i'r neuadd i gyd ar y llawr gwaelod, sy'n wastad. Fodd bynnag, mae dau fetr uwchben lefel y pafin ac roedd pensaernïaeth y ffasâd newydd-glasurol urddasol gyda cholofnau, grisiau a rheiliau'n gryn her.

Buasai'n well gan y grŵp anabledd lleol gael mynediad i'r adeilad trwy'r brif fynedfa, ond derbyniwyd y byddai hyn yn amhosibl i'w gyflawni heb ddinistrio'r mwyafrif o'r grisiau a'r rheiliau. Byddai gweithredu yn y fath fodd wedi niweidio pensaernïaeth ac estheteg yr adeilad yn ddifrifol, o gofio bod yr adeilad ei hun yn un o brif atyniadau'r amgueddfa sydd y tu mewn iddo.

Nodwyd fod yna ardal y tu ôl i'r adeilad lle y gellid adeiladu lle parcio neilltuedig ar gyfer yr anabl. Oddi yno, gellid cael mynediad trwy ddrws cefn bwaog i'r ardd gefn ddeniadol a hynny ar dir gwastad. Roedd y drws o'r adeilad i'r ardd i fyny rhes serth o risiau ond cytunwyd y gellid addasu'r rhain trwy fewnosod lifft cadair.

Oherwydd sensitifrwydd yr adeilad, cytunwyd mai trwy ddarparu mynediad o'r tu cefn y câi'r adeilad ei ddiogelu orau ar gyfer yr holl ymwelwyr a chaniatáu ar yr un pryd i'r rhai mewn cadeiriau olwyn gael mynediad. Rhoddwyd caniatâd adeilad rhestredig i'r neuadd a rhoddwyd y cynllun ar waith. Yn yr un ysbryd, mae gwaith addasu arall wrthi'n cael ei ystyried a ddylai wella mynediad i'r anabl eto.

Ar ein hymweliad ag **Ynys Môn** cafwyd cyfle i weld y cynnydd oedd wedi'i wneud o ran gweithredu'r rhaglen o waith atgyweirio i'r morglawdd ym **Mhlas Newydd**, ac o ran y gwaith i symud llystyfiant oddi yno. Roedd y Cyngor wedi argymell y dylid rhoi grant ar gyfer y rhaglen waith hon ac roedd wedi ymddangos yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf. Roeddem wrth ein bodd hefyd o weld yr hyn roedd Cadw wedi'i gyflawni wrth adfer y tŷ neuadd canoloesol yn **Hafoty, Llansadwrn**, adeilad hynod ddiddorol a fydd ar agor i'r cyhoedd cyn hir.

## Ceisiadau a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn

Rhan fawr o waith y Cyngor oedd ystyried ceisiadau grant unigol a chynghori Cadw ar rinweddau'r eiddo dan sylw. Bu'r Cyngor yn cynghori ynghylch pa adeiladau oedd o werth pensaernïol neu hanesyddol eithriadol — sef y gofyniad deddfwriaethol ar gyfer rhoi grantiau o dan Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953. Hefyd gwnaed argymhellion ynglŷn â pha brojectau a allai wneud cyfraniad sylweddol at wella ardaloedd cadwraeth a'u diogelu a hynny at ddibenion rhoi grantiau ardaloedd cadwraeth o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Ystyriwyd cyfanswm o 202 o geisiadau gan y Cyngor. Aeth y grant uchaf a gynigiwyd — sef £570,000 — i Ymddiriedolaeth Phoenix ar gyfer gwaith atgyweirio hanesyddol i'r neuadd dyrbin yng nghyn lofa Penallta, Caerffili. Aeth swm o £750, sef y grant isaf, i 22 High Street, Hwlffordd i atgyweirio ac adnewyddu ffenestri Sioraidd yn yr adeilad. Cynigiwyd 116 o grantiau 'mewn egwyddor' yn ystod y flwyddyn, er na fydd pob un o'r cynlluniau hyn yn mynd yn ei flaen am wahanol resymau a bydd gwir gyfanswm y grant yn amrywio yng ngoleuni'r tendrau a dderbynnir. Ond mae'r cynigion grant a nodir isod yn adlewyrchu argymhellion y Cyngor.

| **Ceisiadau am grantiau 2000–2001** | **Nifer** | **Gwerth** |
|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau a ystyriwyd | 202 | — |
| Cynigion 'mewn egwyddor' | 116 | £3,686,147 |
| Adeiladau eithriadol — seciwlar | 36 | £1,506,047 |
| Adeiladau eithriadol — eglwysig | 33 | £1,203,923 |
| Grant ardaloedd cadwraeth | 47 | £976,177 |

Mae Ychwanegiadau B ac C yn manylu'n fyr ar yr eiddo y cynigiwyd grantiau 'mewn egwyddor' iddynt yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd ceisiadau ar gyfer adeiladau o bob math a hynny gan unigolion preifat, sefydliadau elusennol a sefydliadau eraill ac awdurdodau lleol. Nodir ceisiadau diddorol a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn yr astudiaethau achos canlynol.



## Astudiaeth Achos: ceisiadau a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn

**Bwthyn yn Nhretio, Tyddewi**

Rhoddwyd y gorau i fyw yn yr adeilad hwn ym 1954 ar ôl iddo gael ei ddifrodi mewn storm ond ymddengys mai dau fwthyn o'r un cynllun ynghlwm wrth ei gilydd ydoedd yn y ddeunawfed ganrif yn wreiddiol.

Adeiladwyd waliau'r adeilad o gerrig mawr wedi'u gosod mewn clai. Mae gan bob hanner i'r adeilad le tân llydan yn y talcen a lintel derw cerfiedig yn cynnal pen simnai sgwâr sylweddol. Mae gan y corn simnai deheuol le tân llai o faint gefn wrth gefn â'r prif le tân. Mae twlc mochyn ynghlwm wrth y talcen gogleddol.

Pan ddaeth y bwthyn gerbron y Cyngor, roedd yn y broses o gael ei adnewyddu — roedd y waliau wedi'u hatgyfnerthu a'u hailbwyntio â morter calch ac roedd un o bennau'r simneiau wedi'i ailadeiladu. Y peth mwyaf diddorol am y tŷ yw'r to. Roedd y to wedi'i doi â gwellt dros fframwaith pren gan ddefnyddio techneg — sef isdoi â rhaffau gwellt — sydd yn gyfarwydd i ni ym Mhrydain o ddyrnaid yn unig o adeiladau yn Sir Benfro a Cheredigion ac o nifer lai fyth o adeiladau ar Ynysoedd Erch. Prin iawn yw'r enghreifftiau sydd wedi goroesi o'r dechneg hon.

Roedd y ceisydd am ailosod y to fel yr oedd yn wreiddiol ond gan ddefnyddio cyrs dŵr yn hytrach na gwellt er mwyn estyn ei oes. Roedd am ddarparu cyfleusterau modern mewn estyniad bach newydd ar safle'r twlc mochyn ac ailadeiladu'r groglofft yn hanner gogleddol y bwthyn.

Cafodd y cais hwn am atgyweirio adeilad brodorol mewn pentref hanesyddol deniadol gefnogaeth y Cyngor. Roedd gan y cais y fantais ychwanegol, sef y byddai'n parhau techneg adeiladu hynod brin ac o ganlyniad argymhellwyd y dylid cynnig grant. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud a bwriedir ei gwblhau ar ddechrau 2001–2002.



Chwith: *Bwthyn yn Nhretio, Tyddewi cyn ei adnewyddu, (Richard Cotton).* Prif lun: *Yr un bwthyn wedi'i adnewyddu'n rhannol.*

**Cyfadeilad Glofa Penallta**

Ymwelodd y Cyngor â safle cyn Lofa Penallta yn Ystrad Mynach, Caerffili ym mis Mai 1995 ac asesu pob un o'r adeiladau rhestredig fel rhai oedd o werth eithriadol. Argymhellodd y Cyngor y dylai unrhyw gynllun i ailddefnyddio'r adeiladau ymgorffori cymaint o dystiolaeth â phosibl o'r defnydd blaenorol a wneid ohonynt.

Ar ôl cyfnod hir o drafod, cyflwynodd Ymddiriedolaeth Phoenix a'i phenseiri gynllun dychmygus ar gyfer adnewyddu pob un o'r adeiladau oedd â tho arno, ynghyd ag atgyweirio'r fframiau pen. Mae'r cynllun yn cynnwys gwaith i adnewyddu'r Neuadd Bŵer/Injan fel y gellir gosod ynddi dri llawr o fflatiau wedi'u hadeiladu ar hyd stryd ganolog a fydd yn cadw uchder, hyd a lled yr adeilad; yn yr un modd, cynigir adnewyddu adeilad y gweithdy i ddarparu unedau tai.

Aeth yr Ymddiriedolaeth at Cadw am gymorth, ac at yr awdurdod lleol, Awdurdod Datblygu Cymru a'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol.

Cafodd y ffaith fod yma botensial i addasu'r adeiladau groeso mawr gan y Cyngor ac roedd yn frwdfrydig iawn dros y posibilrwydd y gellid eu defnyddio mewn ffordd ymarferol a gadwai gymeriad hanesyddol yr adeiladau ar yr un pryd. Roeddem o'r farn y gallai cynnig gwreiddiol penseiri'r Ymddiriedolaeth i roi to agored wedi'i gafnio ar ben y brif Neuadd Bŵer beryglu cymeriad cyffredinol yr adeilad. Yn dilyn trafodaethau, diwygiodd yr Ymddiriedolaeth ei gynllun ar gyfer y to. Bu'n dda gan y Cyngor argymell y dylid rhoi grant 'mewn egwyddor' i atgyweirio adeiladau hanesyddol, ar yr amod bod manyleb lawn o'r gwaith yn cael ei pharatoi a bod pecynnau ariannu eraill yn eu lle. Deallwn fod y cynllun yn mynd yn ei flaen ac edrychwn ymlaen at weld y gwaith yn dechrau. Mae'r cynllun hwn yn enghraifft ddelfrydol o'r modd y gall adeiladau sydd mor bwysig i orffennol diwydiannol Cymru gael eu diogelu a'u hailddefnyddio gyda manteision economaidd a chymdeithasol posibl.

Dde: *Pont gerbydau haearn bwrw Neuadd Dolforgan, Ceri, Y Drenewydd, cyn ei hadnewyddu.*

**Pont Gerbydau Haearn Bwrw Neuadd Dolforgan, Ceri, Y Drenewydd**

Mae'r bont fach hon dros Afon Miwl wedi'i lleoli ar y gyn dramwyfa sy'n arwain o Borthdai Dolforgan i Neuadd Dolforgan. Mae'n bont restredig gradd II ac mae'r disgrifiad yn y rhestr yn ei dyddio i 1818. Pont haearn bwrw ydyw wedi'i hadeiladu o bedwar cylch haearn bwrw. Mae pob un o'r cylchoedd hyn mewn dwy ran, wedi'u bolltio yn y canol, gyda sbandreli cylch agored a fframiau pentan yn pwyso ar bentanau cerrig. Mae iddi lawr o estyll pren ar ddistiau haearn/dur ac mae yna reiliau haearn bwrw cywrain iawn.

Pan ddaeth gerbron y Cyngor, roedd cyflwr y bont yn dirywio — roedd un pentan wedi'i sgubo ymaith ac roedd yr asennau haearn bwrw yn cael eu cynnal ar sgaffaldwaith yn y dŵr. Roedd y cyngor cymuned lleol yn awyddus i ailadeiladu'r bont cyn iddi fynd yn rhy hwyr i'w hachub. Er ei bod yn eithaf bach, ni chafwyd unrhyw drafferth i'w hasesu yn strwythur haearn cynnar o ddiddordeb eithriadol a bu'n dda gennym argymell y dylid cynnig grant iddi.



**Hen Ffermdy, Fferm y Waun, Llanelwy**

Dechreuodd yr Hen Ffermdy fel tŷ ffrâm bren yn y bymthegfed ganrif neu'r unfed ganrif ar bymtheg ac, yn ddiweddarach, bu'n dŷ iwmon o ffermwr. Erbyn hyn mae'n adeilad amaethyddol, un llawr a hanner o uchder, ac mae'n sefyll ar odre o garreg. Mae rhan fach o'r wal allanol wreiddiol â ffrâm bren wedi goroesi yn y cefn ond mae'r walblad bren ganoloesol wedi goroesi drwyddo draw — rhywbeth nad yw'n digwydd yn aml. Mae dau gwpl bongam yn rhannu'r tu mewn yn dri phared lle y mae rhai o'r paneli bangorwaith gwreiddiol i'w cael o hyd. Mae'r lloriau trwy'r adeilad yn rhai pridd. Ymddengys fod y lle tân llydan a adeiladwyd o gerrig wedi'i ychwanegu yn yr ail ganrif ar bymtheg.

Roedd yr Hen Ffermdy mewn cyflwr enbyd pan ddaeth y cais gerbron y Cyngor. Roedd angen tanategu'r talcen de, atgyweirio'r trawstiau a'r gwaith coed, gosod llechi newydd ar y to ynghyd â'r gwaith plwm a'r offer dŵr glaw cysylltiedig, trwsio'r simnai a gwneud rhywfaint o waith ailblastro. Fel adeilad go arbennig oedd wedi goroesi o'r unfed ganrif ar bymtheg gyda'i waith cywrain anarferol o gyflawn a soffistigedig roeddem o'r farn ei fod o ddiddordeb eithriadol. Gyda chymorth grant, mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd bywyd yr adeilad yn para am flynyddoedd lawer i ddod.

Dde: *Hen Ffermdy, Fferm y Waun, Llanelwy, cyn ei adnewyddu (David Jones).*





## Astudiaethau Achos: projectau a gwblhawyd

**Cofgolofn David Davies, Y Barri**

Saif y gofgolofn hon o efydd sy'n rhestredig gradd II* o flaen cyn swyddfeydd Bwrdd Dociau'r Barri sydd hefyd yn adeilad rhestredig ac mae'n edrych dros y dociau. Cofgolofn ydyw i David Davies, peiriannydd, diwydiannwr ac entrepreneur a wnaeth ei ffortiwn ei hun ac a gyfrannodd at y gwaith o sefydlu Dociau'r Barri, a'i gwneud yn bosibl i'r Barri ddod yn un o'r porthladdoedd prysuraf yn y byd. Modelwyd y gofgolofn gan Alfred Gilbert, un o gerflunwyr pwysicaf ei ddydd ac fe'i bwriwyd gan George Broad o Lundain.

Roedd cyflwr y gofgolofn wedi dirywio'n sylweddol erbyn i'r cais ddod ger ein bron er mwyn i ni ei ystyried ym mis Chwefror 2000 — roedd rhannau o'r efydd wedi dirywio ac roedd rhywfaint o'r fframwaith haearn yn rhydu gan achosi rhagor o ddifrod. Nid oedd unrhyw amheuaeth gennym nad oedd y gofgolofn o ddiddordeb eithriadol nid yn unig oherwydd y ffaith ei bod yn coffáu dyn a fu'n flaenllaw yn natblygiad diwydiant De Cymru ond hefyd oherwydd pwysigrwydd ei gerflunydd a'r ffowndri. Yn y cais cynigiwyd y dylai'r gofgolofn gael ei hatgyweirio'n gyfan gwbl gan warchodwyr arbenigol a bu'n bleser gennym argymell y dylai hyn gael ei gymeradwyo.

Fel y dengys ein ffotograff ar y clawr, mae'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn hyn ac rydym wrth ein bodd gyda'r ffordd y mae'r gofgolofn wedi'i hadnewyddu. Unwaith eto mae David Davies yn sefyll a'i lygaid yn edrych dros y dociau a grëwyd ganddo gan ddarparu canolbwynt i gynlluniau'r awdurdod lleol a Phorthladdoedd Prydain Cysylltiedig i adfywio'r ardal hon o'r Barri sydd ar lan y môr.





Chwith: *Cofgolofn David Davies, Y Barri, cyn ei hadnewyddu (Robert Williams).*
Uchod: *Manylyn o fôn y gofgolofn cyn y gwaith atgyweirio.*



Uchod: *Rhan o'r tai allan yn Neuadd Benarth, Conwy, cyn y gwaith adnewyddu (M. Herman).*
Dde: *Y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau yn Neuadd Benarth.*

**Gardd Wal o'i Chwmpas a Thai Allan yn Neuadd Benarth, Conwy**



Yn ein hadroddiad y llynedd manylwyd ar y cynnydd oedd wedi'i wneud yn y gwaith ar Neuadd Benarth, gwaith yr oedd y Cyngor wedi argymell y dylid rhoi grant ar ei gyfer ym 1997. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn honno gofynnwyd i'r Cyngor hefyd ystyried rhaglen o waith i adnewyddu'r ardd â wal o'i chwmpas a thai allan a oedd yn gysylltiedig â'r prif dŷ.

Cynhwyswyd y tirlun o amgylch Benarth yng Nghofrestr Cadw/ICOMOS o Dirluniau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig fel tirlun sy'n 'enghraifft ddiddorol o gynllun o ddechrau'r ugeinfed ganrif wedi'i osod mewn coedwigoedd a pharcdir hŷn' a 'gardd gegin ar raddfa fawr â wal o'i chwmpas yn dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif neu ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.' Gwyddys i'r ardd gegin ogleddol gael ei chreu yn fuan ar ôl cwblhau'r tŷ gwreiddiol, yn ôl pob tebyg gan yr ail berchennog, Mr Burroughs, a ddaeth yn berchennog ar y tŷ ym 1805. Byth oddi ar hynny ymddengys iddynt gael eu defnyddio a'u datblygu, gyda'r gwaith yn cyrraedd ei anterth gyda chyfnod pwysig o fuddsoddi rhwng 1914 a 1931.

Pan ystyriwyd yr ardd a'r tai allan gan y Cyngor roedd cyflwr gwael ar y tai allan — roedd y toeau wedi syrthio — ac roedd perygl mawr na fyddai strwythurau'r waliau a oedd ar ôl yn goroesi. Roedd y Cyngor o'r farn fod yr ardd â wal o'i chwmpas a'r adeiladau oedd yn gysylltiedig â hi yn rhan hanfodol o'r dreftadaeth hanesyddol a phensaernïol gyffredinol yn Benarth ac fe'u cymeradwywyd fel rhai oedd o ddiddordeb eithriadol.

Rydym wrth ein bodd i ni wneud hynny gan fod yr adeiladau wedi'u hadnewyddu bellach. Mae'r ardd gegin unwaith eto yn gynhyrchiol a dyma'r prawf — os oes angen prawf — fod rhoi grantiau i ddiogelu adeiladau'n gwneud gwahaniaeth.

# Mentrau/Materion Cyfredol

Er bod darparu cyngor arbenigol ar yr hyn sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yn yr adeiladau sy'n dod ger ein bron yn rhan fawr o waith y Cyngor, mae ein cylch gorchwyl (Ychwanegiad Ch, Atodiad A) yn llawer ehangach. Bu'n bleser gennym felly gynghori ar nifer o fentrau newydd i hyrwyddo gwaith i ddiogelu adeiladau hanesyddol neu i fynd ar ôl materion sy'n achos pryder arbennig.

## AROLWG O'R AMGYLCHEDD HANESYDDOL

O gofio gwahanol feysydd arbenigol aelodau'r Cyngor, croesawyd y gwahoddiad a estynnodd y Llywodraeth i English Heritage gynnal arolwg sylfaenol o'r amgylchedd hanesyddol. Er bod yr arolwg a gynhaliwyd gan English Heritage yn cyfeirio at Loegr yn unig, roedd yn dda gennym ystyried y materion a godwyd ym mhapurau trafod English Heritage, gan fod llawer ohonynt yn berthnasol i Gymru. Cafwyd trafodaeth hir ynghylch y problemau a'r heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n gweithio ym maes adeiladau hanesyddol ac roeddem o'r farn fod yna gamau y gellid eu cymryd i wella polisïau ac ymarfer yn ymwneud â chadwraeth. Trosglwyddwyd ein sylwadau i Cadw er mwyn eu cynnwys yn y broses ymgynghori. Rydym yn gofyn i'r Cynulliad, trwy Cadw, barhau i ymgynghori ag English Heritage a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â mentrau polisi o'r fath ac iddo ystyried ymhellach beth y gellid ei wneud yng Nghymru i hyrwyddo gwaith i ddiogelu adeiladau hanesyddol.

## TAW A GWAITH ATGYWEIRIO I ADEILADAU HANESYDDOL

Un o'n pryderon mwyaf — y cyflwynwyd cynrychioliadau gerbron y Cynulliad yn ei gylch — yw'r gyfradd TAW o 17.5% a godir ar waith atgyweirio a wneir i adeiladau hanesyddol. Mae hyn yn anghyson o'i chymharu â'r gyfradd sero sydd ar waith addasu adeiladau rhestredig. Rydym yn siomedig bod yn rhaid i'r DU aros i'r Gymuned Ewropeaidd ystyried y mater hwn cyn y gellir newid y gyfradd TAW mewn unrhyw ffordd ond rydym yn falch bod yr anghysonder wedi'i gydnabod o leiaf i ryw raddau gan Ganghellor y Trysorlys pan gyhoeddodd yn ei Gyllideb gynllun grantiau newydd a fydd i bob pwrpas yn gostwng y gyfradd TAW ar gyfer addoldai rhestredig i 5%. O gofio'r pwysau ariannol sydd ar lawer o gynulleidfaoedd i gadw eu hadeiladau mewn cyflwr da, mae'n hyn i'w groesawu'n fawr ond mae'r anghysonder hwn yn parhau i osod baich trwm ar gyfran fawr o'n treftadaeth adeiledig werthfawr.

## ADEILADAU SYDD MEWN PERYGL

Mae bob amser yn peri tristwch mawr i ni glywed am adeiladau pwysig sy'n dirywio, p'un ai trwy esgeulustod bwriadol neu oherwydd anallu'r perchenogion i'w cynnal yn iawn. Yn ein trafodaeth ynghylch arolwg English Heritage nodwyd nad oes unrhyw ddyletswydd ar berchenogion ar hyn o bryd

i ofalu am eu hadeiladau (dim ond o dan y gyfraith droseddol y ceir rhwymedi ar hyn o bryd) ac mae'n dda gennym weld bod argymhelliad wedi'i gynnwys yn ymateb English Heritage i'r Llywodraeth, ymateb a gyhoeddwyd o dan y teitl '*Power of Place*'. Ers amser maith mae'r Cyngor wedi dadlau y dylai perchenogion wneud gwaith ataliol syml ar eu hadeiladau — megis glanhau'r cafnau. Yn aml mae modd gwneud y math hwn o waith am gost resymol a gall hyn osgoi'r angen am waith atgyweirio drud yn nes ymlaen.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau penodol am adeiladau rhestredig yn eu hardal ac mae'r Cyngor bob amser wedi mynd i drafferth fawr i annog awdurdodau i weithredu i sicrhau na chollir adeiladau sydd mor bwysig i'w cymunedau lleol. Yn ystod y flwyddyn, ar fwy nag un achlysur hysbyswyd yr awdurdod lleol priodol o'n pryder ynghylch cyflwr nifer o adeiladau rhestredig, rhai ohonynt yn adeiladau rhestredig gradd 1, ac rydym yn falch bod ein hymyrraeth wedi peri i awdurdodau weithredu'n gyflym mewn rhai achosion. Mae'n dda gennym gefnogi Cadw wrth iddo annog awdurdodau lleol i arolygu adeiladau sydd mewn perygl a chadw cofrestrau lleol ohonynt. Mae'n dda gennym nodi hefyd i Cadw gynnig cyfrannu tuag at gostau yr aed iddynt — ac nas cafwyd yn ôl — gan awdurdodau lleol wrth gyflwyno rhybuddion i sicrhau bod gwaith brys yn cael ei wneud. Yn aml iawn, bydd gwaith a wneir i wneud adeilad yn ddiogel rhag tywydd garw a fandaliaid yn ymestyn oes yr adeilad gryn dipyn nes y gellir dod o hyd i ryw ateb pendant.

## ADDOLDAI SEGUR

Mae bob amser yn destun gofid pan ddatgenir bod eglwysi a chapeli'n segur ac na ellir defnyddio'r adeiladau mwyach i'r diben y'u bwriadwyd. Fodd bynnag, mae dau sefydliad erbyn hyn a fydd yn sicrhau y caiff yr adeiladau mwyaf eithriadol eu hatgyweirio a'u cadw'n ddiogel ac, os yn briodol, y rhoddir defnydd newydd iddynt.

Bu'n bleser gennym gynghori ar rinweddau sawl eglwys segur. Erbyn hyn mae gan gymdeithas Cyfeillion Eglwysi Digyfaill nifer o eglwysi Cymreig o dan ei gofal, gyda nifer o eglwysi posibl eraill yn disgwyl eu tro. Mae'n galondid i ni nodi, ar ddiwedd y flwyddyn, yn ogystal â'r gwaith atgyweirio ar Eglwys Hodgeston, Llandyfái, fod gwaith ar Eglwys Dewi Sant, Llangyfiw, Sir Fynwy yn agos at gael ei gwblhau — mae cam 2 y gwaith i gynnwys gwyngalchu'r eglwys. Mae gwaith i fod i ddechrau cyn hir ym Manordeifi, Sir Benfro.

Bu'n bleser gennym estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r sefydliad newydd Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru roi cyflwyniad i ni ynglŷn â'i gwaith a bu'n dda gennym nodi'r cynnydd a oedd wedi'i wneud ar ôl cryn ymdrech i osod y sylfeini. Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth fel corff cyfochrog â Chyfeillion yr Eglwysi Digyfaill i ofalu am y capeli segur pwysicaf. Bu'r Ymddiriedolaeth yn canfasio awdurdodau lleol a chyrff capeli i nodi adeiladau a fyddai'n gymwys i fynd o dan ei gofal ac roeddem yn arbennig o falch bod yr Ymddiriedolwyr yn gallu cyflwyno i ni eu hymgeiswyr cyntaf am grantiau i gaffael ac i atgyweirio adeiladau. Roeddem o'r farn bod dau gapel o ddiddordeb eithriadol — Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon, a oedd yn hanesyddol bwysig fel un o'r safleoedd hynaf sydd â chysylltiad ag anghydffurfiaeth yng

nghymoedd de Cymru. Mae Beili Du, Pontsenni yn adeilad deniadol o syml sy'n cynrychioli cryfder dwfn anghydffurfiaeth yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i chwilio am ymgeiswyr i fynd o dan ei gofal ac edrychwn ymlaen at ei chynghori ymhellach ar rinweddau'r adeiladau hyn fel y cânt eu diogelu ac, os yn briodol, eu hadfer fel y gellir eu defnyddio unwaith eto a hynny mewn ffordd gydymdeimladol. O gofio bod capeli, o'r holl fathau o adeiladau sydd yng Nghymru, yn un o'r mathau mwyaf nodweddiadol sydd o dan y bygythiad mwyaf, rydym yn dymuno pob llwyddiant i'r Ymddiriedolaeth.

## MENTER TREFTADAETH Y DREFLUN

Fel y dangoswyd ar ein hymweliad â Doc Penfro, rydym yn parhau i gymryd diddordeb mawr yn natblygiad Menter Treftadaeth y Dreflun Cronfa Treftadaeth y Loteri yng Nghymru. Bu'n bleser gennym gefnogi penderfyniad Cadw i roi cymorth grant i ddeuddeg o brojectau ac rydym wrth ein bodd o weld y ffordd y mae'r grant hwnnw a roddir ar gyfer gwaith addasu yn cael ei ddefnyddio i sicrhau y denir arian gan sefydliadau eraill a fydd yn helpu i adfywio ardaloedd yn economaidd ac yn gymdeithasol.

## GWAITH RENDRO A GWYNGALCH

Nid yw gwaith y Cyngor bob amser yn rhydd o ddadleuon. Rydym yn gweld nifer fawr o eglwysi canoloesol, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi'u hadeiladu o gerrig llanw. Argymhellwyd yn aml y dylid cynnig grant ond ar yr amod bod rendradau allanol amddiffynnol traddodiadol yn cael eu hailosod arnynt. Fodd bynnag, weithiau gwrthwynebir ein hargymhellion oherwydd y gred gyffredin — ond anghywir — mai cerrig moel yw'r cymeriad naturiol a chywir ar gyfer hen adeiladau. Er i benseiri oes Fictoria dynnu'r rendrad fel mater o drefn oddi ar eglwysi tra oeddent yn cael eu hadnewyddu, mae yna dystiolaeth ddiymwad bod adeiladau canoloesol yn aml wedi'u rendro a bod gwyngalchu adeiladau'n nodwedd o fywyd gwledig ledled Cymru ac ymhell i'r ugeinfed ganrif.

Roedd rheswm da am hyn. Mae cerrig llanw yn dueddol o ddirywio am sawl rheswm. Mae'r uniadau rhwng y cerrig yn fannau gwan ac mae angen eu hail-lenwi'n gyson â morter, sy'n cael ei erydu gan y gwynt a'r glaw. Mae'r cerrig eu hunain yn cael eu herydu gan effaith rhew a'r gwynt ac weithiau mae'n amhosibl cadw wal gerrig llanw'n sych oherwydd bod y deunyddiau eu hunain yn fandyllog. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos waliau unionsyth uchel, megis tyrau eglwysi, sy'n wynebu'r tywydd mynychaf.

Gellir yn aml atal y broses o ddirywio mewn modd syml ac effeithiol. Mae'n bwysig bod y morter sy'n llenwi'r uniad yn wannach na'r cerrig o'i amgylch, a dyma'n union sut y mae cymysgeddau calch traddodiadol. Mae unrhyw leithder yn y wal yn tueddu i fudo allan trwy'r llenwad mwy meddal yn hytrach na thrwy'r cerrig caletach. Os yw'r llenwad yn gryfach na'r cerrig mae'r gwrthwyneb yn digwydd — mae'r lleithder yn mudo allan trwy'r cerrig, sy'n achosi iddynt ddirywio, neu fe'i tynnir i mewn gan y tu mewn sy'n gynhesach gan achosi niwed y tu mewn i'r adeilad.



Roedd yn arferol yn ystod yr Oesoedd Canol i ddiogelu waliau cerrig llanw rhag y tywydd drwy got o rendrad â sail calch iddo dros wyneb allanol y gwaith cerrig. Yn yr un modd gosodwyd cot drwchus o blastr calch ar y tu mewn i'r wal. Roedd y rendrad a'r plastr yn helpu i amsugno ac yn cadw'r gwlybaniaeth. Mewn tywydd sych, mae'r gwlybaniaeth yn anweddu o'r wal i'r awyr agored. Mae'r rendrad yn gorchuddio ac yn diogelu'r uniadau gwan rhwng y cerrig, gan gyfyngu ar faint o ddŵr sy'n treiddio trwy'r wal i'r craidd.

Gall gosod sawl cot o wyngalch tenau ar y cerrig ychwanegu at allu'r rendrad calch i ddal dŵr. Yn ystod yr Oesoedd Canol, yn aml ychwanegid gwêr i wneud y deunydd yn fwy diddos. Fel arfer amrywiai lliw'r gwyngalch o lwydwyn i liw hufen tywyll, ond ychwanegid deunyddiau naturiol megis clai a gwaed yn aml i gynhyrchu gwahanol liwiau pinc neu ocr. Canlyniad y broses hindreulio naturiol yw wyneb tra deniadol.

Mae'r Cyngor o'r farn bod yna reswm da dros argymell defnyddio rendrad calch i atal adeiladau canoloesol mor bwysig rhag dirywio yn enwedig lle y mae tystiolaeth bod yr adeilad wedi'i rendro'n wreiddiol. Mewn eglwysi lle y gwnaed hyn, megis Lawrenny, Mamhilad a Llanedeyrn, mae'r cynulleidfaoedd lleol at ei gilydd yn llawn brwdfrydedd oherwydd y gwahaniaeth y mae'r gwaith rendro wedi'i wneud i'w hadeilad, gwaith sydd wedi atal, i bob pwrpas, ddŵr rhag treiddio iddo. Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall golwg adeilad newid yn eithaf sylfaenol ac y gall fod angen cryn dipyn o berswâd i atgyfnerthu'r neges bod golwg wreiddiol yr adeilad yn cael ei hadfer a bod dyfodol mwy diogel o'i flaen.



Uchod: *Eglwys Sant Illtyd, Mamhilad cyn gosod y rendrad a'r gwyngalch i du allan yr adeilad.*

## Costau CAH

Darperir Ysgrifenyddiaeth y Cyngor, sy'n darparu cymorth a chyngor proffesiynol, gan Cadw. Roedd costau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog y cadeirydd | | £5,573 |
| Costau cyfarfodydd | | £8,226 |
| Costau amcangyfrifedig Cadw ar gyfer cynnal y Cyngor | | £15,000 |
| | **Total** | **£28,799** |

## Cydnabyddiaethau

Roedd y Cyngor yn ddiolchgar am y cymorth a dderbyniodd gan ei Ysgrifenyddiaeth a chan ei Aseswyr Pensaernïol o fewn Cadw, ac i'r cyrff a'r unigolion eraill hynny a ddarparodd sylwadau a chyngor arbenigol.

Chwith: *Eglwys Sant Illtyd, Mamhilad ar ôl y gwaith rendro a gwyngalchu.*



Chwith: *Neuadd ganoloesol Hafoty, Llansadwrn, Ynys Môn.*

YCHWANEGIAD A

# Crynodeb o Grantiau

1. Grantiau ar gyfer Adeiladau Seciwlar Eithriadol

| **Ceisiadau a ystyriwyd** | **2000–2001** |
|---|---|
| Ceisiadau newydd | 78 |
| Ceisiadau am gynnydd yn y grant | 24 |
| **Cyfanswm** | **112** |
| Nifer y grantiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | 36[a] |
| Gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd [b] | £1,506,047[c] |
| Gwariant | £571,729 |

(a) Ar ben hynny, cymeradwywyd 24 o geisiadau am gynnydd yn y grant yn ystod y flwyddyn.

(b) Nid yw gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd yn cymryd i ystyriaeth werth y grantiau dileëdig, a ddaeth i gyfanswm o £575,251 yn 2000–2001.

(c) Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth grantiau a gynyddwyd, grantiau yr oedd eu cyfanswm yn £244,070 yn 2000–2001.

2. Grantiau ar gyfer Adeiladau Eithriadol a ddefnyddir at ddibenion Addoli

| **Ceisiadau a ystyriwyd** | **2000–2001** |
|---|---|
| Ceisiadau newydd | 52 |
| Ceisiadau am gynnydd yn y grant | 24 |
| **Cyfanswm** | **76** |
| Cyfanswm y grantiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | 33[a] |
| Gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd [b] | £1,203,923[c] |
| Gwariant | £1,022,737 |

(a) Ar ben hynny, cymeradwywyd 24 o geisiadau am gynnydd yn y grant yn ystod y flwyddyn.

(b) Nid yw gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd yn cymryd i ystyriaeth werth y grantiau dileëdig, a ddaeth i gyfanswm o £140,612 yn 2000–2001.

(c) Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth y grantiau a gynyddwyd, grantiau yr oedd eu cyfanswm yn £118,085 yn 2000–2001.

## YCHWANEGIAD A

### 3. Grantiau am Gynlluniau mewn Ardaloedd Cadwraeth

| **Ceisiadau a ystyriwyd** | **2000–2001** |
|---|---|
| Ceisiadau newydd | 72 |
| Ceisiadau am gynnydd yn y grant | 16 |
| **Cyfanswm** | **88** |
| Cyfanswm y grantiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | 47[(a)] |
| Gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd [(b)] | £976,177[(c)] |
| Gwariant | £799,156 |

(a) Ar ben hynny, cymeradwywyd 16 o geisiadau am gynnydd yn y grant yn ystod y flwyddyn.

(b) Nid yw gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd yn cymryd i ystyriaeth werth y grantiau dileëdig, a ddaeth i gyfanswm o £234,104 yn 2000–2001.

(c) Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth y grantiau a gynyddwyd, grantiau yr oedd eu cyfanswm yn £173,076 yn 2000–2001, ond sy'n cynnwys gwariant mewn perthynas â Chynlluniau Trefi Hanesyddol.

### 4. Grantiau ar gyfer Eglwysi Cadeiriol

Derbyniwyd 2 gais yn 2000–2001, sef:

| | Grant |
|---|---|
| Eglwys Gadeiriol Llanelwy | £17,370 |
| Eglwys Gadeiriol Aberhonddu | £28,169 |

YCHWANEGIAD B

# Grantiau ar Gyfer Adeiladau Eithriadol

**Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953, Adran 4**
Ceir isod restr o adeiladau yr argymhellwyd y dylid rhoi grant iddynt yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2000 hyd 31 Mawrth 2001. Nid yw'n angenrheidiol bod y grant wedi'i dalu, yn rhannol neu'n llawn, ym mhob achos.

Mae pob cynnig grant mewn perthynas ag adeiladau eithriadol a dderbynnir yn ffurfiol yn ddarostyngedig i amod sy'n mynnu mynediad i'r cyhoedd. Ceir manylion am drefniadau mynediad ar wefan Cadw: http://www.cadw.wales.gov.uk

## Pen-y-bont ar Ogwr

**Eglwys Sant Iago, Y Pîl**
Un o eglwysi plwyf Morgannwg yw eglwys Sant Iago ac er ei bod yn fach mae mewn cyflwr da. Mae i'r adeilad rhestredig gradd 1 hwn ffurf ac adeiladwaith sydd i raddau helaeth yn ganoloesol o hyd, ac mae ganddi do hardd yn dyddio o'r Oesoedd Canol. Grant o £11,750 ar gyfer gwaith atgyweirio i'r to ac i'r plastr y tu mewn.

## Caerffili

**Glofa Penallta, Ystrad Mynach**
Cyn gyfadeilad glofa sy'n amlwg yn y dirwedd leol ac sydd eisoes yn enghraifft brin o lofa sydd wedi goroesi. Cynigiwyd grant o £570,000 tuag at gynllun Ymddiriedolaeth Phoenix i adfer y nifer fawr o adeiladau rhestredig sydd ar y safle a hynny mewn ffordd ddychmygus.

## Caerdydd

**Eglwys Sant Garmon, Stryd Metal**
Mae eglwys Sant Garmon yn un o'r addoldai mwyaf hardd a adeiladwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru. Adeiladwyd yr eglwys ddinesig dra chywrain ac urddasol hon gan y pensaer G. F. Bodley. Cynigiwyd grant o £65,000 ar gyfer adnewyddu'r tu allan yn gyfan gwbl ac ar gyfer ystod o waith i atgyweirio a gwella'r tu mewn.

## YCHWANEGIAD B

**Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr, Sgwâr Sant Ioan**
Eglwys Sant Ioan yw eglwys blwyf hanesyddol Caerdydd, ac mae ganddi dŵr canoloesol arbennig o hardd, llawer o henebion pwysig a ffitiadau da ac enghreifftiau da o wydr yn dyddio i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Cynigiwyd grant o £135,000 ar gyfer gwaith atgyweirio sylweddol i'r tu allan.

## Sir Gaerfyrddin

**Eglwys Cyffig, ger Hendy-gwyn ar Daf**
Eglwys o ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg ganrif yw hon sydd wedi'i lleoli yn y bryniau i'r de o Hendy-gwyn ar Daf. Mae ei chwt clychau a'i thŵr clychau gwreiddiol yn dra amlwg. Cynigiwyd grant o £60,000 tuag at waith atgyweirio sylweddol i dŵr yr eglwys.

**Eglwys Sant Pedr, Caerfyrddin**
Eglwys ganoloesol restredig gradd 1 yw hon a chanddi lawer o henebion diddorol y tu mewn iddi yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg. Ar ben hynny mae yna lawer o gerrig bedd a beddrodau diddorol yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y fynwent. Cynigiwyd grant o £86,370 ar gyfer gwaith atgyweirio y tu mewn i'r eglwys; £105,000 ar gyfer rendro'r tŵr â chalch; grant o £177,500 ar gyfer diogelu henebion a murluniau y tu mewn i'r eglwys.

**Henllys, Cilycwm, Llanymddyfri**
Enghraifft o blasty o ddechrau'r bedwaredd ar bymtheg yw Henllys. Mae mewn cyflwr da ac mae llawer o waith cywrain da i'w weld y tu mewn iddo o hyd. Mae adeiladwaith y tŷ yn ailfodel o dŷ cynharach, a berthynai o bosibl i ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg neu ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Cynigiwyd grant o £6,400 ar gyfer gwaith atgyweirio y tu allan i'r plasty.

## Ceredigion

**Llanerchaeron, Ciliau Aeron, Aberaeron**
Adeiladwyd Llanerchaeron, plasty newydd-glasurol a gynlluniwyd gan John Nash ar ffurf fila, tua 1794. Fe'i hadnewyddwyd yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf gyda chymhorthdal. Cynigiwyd grant o £176,000 i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer gwaith atgyweirio y tu mewn i'r plasty ar ôl cael gwared â'r pydredd sych.

## YCHWANEGIAD B

**Ffynnon Oer, Temple Bar**
Adeilad tra diddorol yw Ffynnon Oer. Mae'n enghraifft ardderchog o sut y mae'n bosibl byw bywyd modern mewn tŷ brodorol, ac o ran ei bensaernïaeth mae'n go arbennig am ei fod yn cynrychioli parhad traddodiadau adeiladu lleol. Mae'r rhan gynharaf o'r adeilad yn dyddio o ganol y ddeunawfed ganrif. Cynigiwyd grant o £21,200 ar gyfer gwaith aildoi ac aildrendro.

**Ty'n Cwm, Llan-non, Aberaeron**
Bwthyn bach â chroglofft yng nghynllun Ceredigion yw Ty'n Cwm. Mae'r tŷ gwreiddiol, yng nghanol y rhes o adeiladau, yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif. Cynigiwyd grant o £3,200 ar gyfer gwaith adnewyddu'r adeilad gwreiddiol.

**Ynys Felin, Dihewyd**
Ffermdy brodorol mawr a hynod o anarferol yw Ynys Felin. Mae'n adeilad sy'n nodweddiadol o'r ardal ac mae'n bosibl ei fod yn dyddio o'r Oesoedd Canol. Mae'r adeilad wedi'i adeiladu o bridd clom yn bennaf, rhywbeth sy'n anghyffredin mewn adeilad mor fawr ac mor hen â hwn. Yn y gegin mae'r lle tân ar wahân, sydd ar gynllun canoloesol, hefyd yn un o'r enghreifftiau prin sydd wedi goroesi hyd heddiw. Cynigiwyd grant o £40,000 ar gyfer gwaith adnewyddu ar raddfa fawr.

## Conwy

**Benar, Penmachno, Betws-y-coed**
Ffermdy ardderchog yw Benar yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg. Mae wedi'i adeiladu o gerrig tywyll lleol ac fe'i lleolir yng nghefn gwlad agored y tu allan i Fetws-y-coed. Er iddo gael ei fandaleiddio flynyddoedd lawer yn ôl, mae'r perchenogion presennol wedi graddol adnewyddu'r adeilad. Cynigiwyd grant o £3,200 i sefydlogi wal y talcen.

**Eglwys yr Holl Saint, Rhodfa'r Holl Saint, Deganwy**
Adeiladwyd yr eglwys ym 1899 yn ôl cynllun John Douglas y pensaer gwych o Gaer. Mae i Eglwys yr Holl Saint olwg wirioneddol Gothig gyda'i thŵr isel â'i fwtresi cadarn a'r meindwr cymhleth â tho serth sydd drws nesaf i gorff plaen yr eglwys. Cynigiwyd grant o £12,500 i atgyweirio'r to.

**Eglwys Cynbryd Sant, Llanddulas, Abergele**
Mewn pant islaw'r ffordd ym mhentref Llanddulas y saif Eglwys Cynbryd Sant a hi oedd y gyntaf o nifer o enghreifftiau o waith G. E. Street o ogledd Cymru a gyflawnwyd o dan nawdd Robert Hesketh o Gastell Gwrych, ac mae'n aros yn ddigyfnewid. Cynigiwyd grant o £12,500 i atgyweirio'r to a'r offer dŵr glaw, i ailbwyntio ffenestri a gosod ffenestri newydd yn yr eglwys.

## YCHWANEGIAD B

**Eglwys Sant Grwst, Llanrwst**
Mae Eglwys Sant Grwst yn adeilad rhestredig gradd 1 o ddiddordeb eithriadol. Mae iddi adeiladwaith canoloesol sy'n cynnwys croglen hardd, a Chapel Gwydir a ychwanegwyd gan Syr John Wynn ym 1633–34. Cynigiwyd grant o £50,000 tuag at osod plwm newydd ar do'r tŵr a'r gwaith ailbwyntio cysylltiedig, ynghyd â gwaith atgyweirio amrywiol y tu mewn i'r eglwys gan gynnwys adnewyddu'r groglen.

**Eglwys y Plwyf Sant Ilar, Llan-rhos, Llandudno**
Adeilad ar ffurf croes yw Eglwys Sant Ilar. Yng nghorff yr eglwys ceir olion o'i gwreiddiau canoloesol, ac mae gweddill yr eglwys yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg. Y tu mewn i gapel y de ceir llawer o henebion cywrain ar y muriau, ac mae yna gofebau a gwaith efydd gwych yn y fynwent. Cynigiwyd grant o £2,000 tuag at adnewyddu porth y fynwent.

**Castell Gwydir, Llanrwst**
Plasty Tuduraidd tra phwysig yw Castell Gwydir sy'n ymgorffori elfennau canoloesol cynharach. Y plasty oedd cartref teulu enwog y Wynniaid o tua 1500 hyd tua 1674. Cynigiwyd grant o £32,000 i barhau â'r gwaith atgyweirio i dŵr yr haul.

**Plas Isaf, Bryn Rhyd yr Arian, Llansannan**
Ffermdy o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg yw Plas Isaf ac iddo gymeriad brodorol cryf. Mae nodweddion gwreiddiol i'w gweld o hyd y tu mewn i'r tŷ ac mae llawer o'r ffenestri a osodwyd pan adnewyddwyd y tŷ ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif wedi goroesi. Mae'r brif fynedfa, sy'n defnyddio slabyn bedd canoloesol fel lintel a drws tra chaboledig sydd wedi'i gerfio'n gain yn null y Dadeni Eidalaidd o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Cynigiwyd grant o £13,800 ar gyfer gwaith atgyweirio cyffredinol i'r to a'r gwaith cerrig.

## Sir Ddinbych

**Hen Ffermdy, Y Waun, Llanelwy**
Mae Ffermdy'r Waun, sydd wedi'i leoli rhwng Llanelwy a Thremeirchion, yn dyddio o'r bymthegfed ganrif neu'r unfed ganrif ar bymtheg. Yn rhyfedd iawn, mae'r ffermdy iwmon hwn wedi goroesi heb i'r ugeinfed ganrif gyffwrdd ag ef mewn unrhyw ffordd a cheir gwaith cywrain anarferol o gyflawn a soffistigedig. Cynigiwyd grant, yn ddarostyngedig i gynllun gwaith addas, tuag at atgyweirio'r trawstiau a'r gwaith coed hanesyddol, ailbwyntio'r waliau allanol a'u gwyngalchu ac atgyweirio strwythur y to.

YCHWANEGIAD B

**Plas Bennett, Llandyrnog**
Ac yntau wedi'i adeiladu ym 1749 mewn llecyn tawel yng nghefn gwlad, mae gan Blas Bennett ddrychiad blaen pum bae ffurfiol a chymesur â dwy res o ffenestri codi. Mae'r tu mewn i'r tŷ wedi goroesi bron yn ddigyfnewid, gan gadw llawer o'r nodweddion gwreiddiol megis y grisiau derw â thro cam. Cynigiwyd grant o £26,000 ar gyfer yr ail gam o'r gwaith atgyweirio, sy'n cynnwys gwaith ailbwyntio ac atgyweirio'r gwaith cerrig a'r ffenestri.

**Eglwys Sant Marcella, Dinbych**
Mae Eglwys Sant Marcella yn perthyn i ganol y cyfnod Gothig. Yn ddiweddarach ym 1915 gwnaed gwaith i adnewyddu'r eglwys. Y tu mewn iddi ceir llawer o henebion pwysig. Cynigiwyd grant o £10,000 i ailbwyntio'r tŵr, gwyngalchu'r eglwys, ac atgyweirio porth y fynwent.

**Eglwys Tysilio Sant, Bryneglwys**
Eglwys fach a adeiladwyd o gerrig lleol yw Eglwys Tysilio Sant. Mae'r manylion cynharaf yn dyddio o'r bymthegfed ganrif. Cynigiwyd grant o £8,500 ar gyfer y cam cyntaf o'r gwaith atgyweirio, sy'n cynnwys ailbwyntio'r talcen gorllewinol; gosod llechi newydd ar y festri; a gwaith atgyweirio i'r cwt clychau a'r plastr y tu mewn i'r eglwys.

**Foxhall, Henllan, Sir Ddinbych**
Mae Foxhall yn blasty Tuduraidd cynnar a chanddo adain groes eithriadol yn dyddio o'r Oesoedd Canol. Mae nodweddion gwreiddiol da i'w gweld o hyd y tu mewn a'r tu allan i blasty Foxhall. Mae hefyd o ddiddordeb hanesyddol fel man geni Wmffre Llwyd, y meddyg a'r hynafiaethydd enwog oedd yn byw yn ystod oes y Tuduriaid. Cynigiwyd grant, yn ddarostyngedig i gynllun gwaith addas, ar gyfer rhaglen o waith adnewyddu i'r tu allan.

**Eglwys y Drindod Sanctaidd (Porth Mynwent), Trefnant, Sir Ddinbych** Adeiladwyd eglwys y Drindod Sanctaidd er cof am y Cyrnol John Lloyd Salusbury o Neuadd Galltfaenan gan ei ferched. Cynlluniwyd yr eglwys gan Syr George Gilbert Scott ac fe'i hadeiladwyd yn ystod y 1850au. Fe'i cynlluniwyd o amgylch ei arddull nodweddiadol 'pwynt canolog' a oedd yn gyffredin ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg/dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Gosodwyd porth y fynwent erbyn 1856. Cynigiwyd grant o £2,750 ar gyfer atgyweirio gwaith pren porth y fynwent.

## Sir y Fflint

**Eglwys Deiniol Sant, Penarlâg**
Adeiladwyd yr eglwys hon yng nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg ar seiliau cynharach. Llosgwyd y tu mewn i'r eglwys yn ulw ond yna gwnaed gwaith adnewyddu ac ychwanegu o ansawdd ardderchog arni gan Gilbert Scott a John Douglas yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae William Gladstone wedi'i gladdu yma mewn beddrod gwych. Grant o £10,000 i atgyweirio strwythur y to.

YCHWANEGIAD B

## Gwynedd

**Gorllwyn Uchaf, Pren-teg, Tremadog**
Adeilad cerrig brodorol â llofft yn dyddio o'r Oesoedd Canol yw hwn yn nhraddodiad adeiladau nenfforch. Mae Gorllwyn Uchaf, a leolir yng nghanol rhostir ger Tremadog, wedi aros bron yn ddigyfnewid ar hyd y canrifoedd. Cynigiwyd grant o £12,000 tuag at waith atgyweirio strwythur y to a'r nenffyrch, gwaith trin a diogelu'r pren sydd ar ôl a gwaith ailbwyntio.

**Libart Stablau, Ystad Glynllifon, Ffordd Glynnog, Caernarfon**
Mae'r libart stablau mawr ar Ystad Glynllifon i'r de o Gaernarfon yn enghraifft odidog eithriadol o'i fath mewn lleoliad hanesyddol. Mae wedi cadw llawer o'i fanylion clasurol o gyfnod y Rhaglywiaeth megis y slabiau cerrig gwreiddiol a gwteri coblog. Cynigiwyd grant o £20,000 ar gyfer gwaith aildoi adain ddwyreiniol y libart.

**Fferm Vanner, Llanelltyd, Dolgellau**
Mae Tŷ Vanner yn neuadd bwysig o ddiwedd yr Oesoedd Canol a gysylltir ag Abaty Cymer yn Llanelltyd ac a leolir gyferbyn ag ef. Cynigiwyd grant o £2,400 ar gyfer gwaith i wneud iawn am dirlithriad yn y gornel ogledd-orllewinol.

**Capel Jerusalem, Bethesda, Gwynedd**
Mae Capel Jerusalem, sy'n adeilad rhestredig gradd 1, yn gapel Methodist Calfinaidd o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r tu mewn cywrain iawn sydd ar gynllun hanner cylch o ddiddordeb eithriadol. Cynigiwyd grant o £11,650 tuag at adfer yr offer dŵr glaw o haearn bwrw.

**Eglwys Sant Peblig, Llanbeblig, Caernarfon**
Hen eglwys y plwyf a adeiladwyd ar gyrion Caernarfon yw Eglwys Sant Peblig. Mae'r adeilad presennol yn dyddio yn bennaf o'r bedwaredd ganrif ar ddeg drwodd i'r unfed ganrif ar bymtheg. Cynigiwyd grant o £11,500 ar gyfer gwaith atgyweirio'r gwaith cerrig a gwaith ailbwyntio'r capel yng nghorff yr eglwys, yr aleau croes a siambr yr organ.

**Bodwrdda, Aberdaron, Pwllheli**
Mae Bodwrdda'n dyddio o 1621. Mae'r tu allan i'r adeilad wedi'i adeiladau o frics ar ffurf oraddurnedig nas ceir fel arall yn y rhan hon o Gymru; mae'r ffaith bod yr adeilad hanesyddol hwn wedi goroesi yn rhyfeddod. Grant o £16,000 ar gyfer gwneud gwaith atgyweirio ar raddfa fawr i'r tu mewn.

**Porthdy Tyrog Neuadd Broom, Chwilog, Pwllheli**
Lleolir Neuadd Broom, plasty soffistigedig o ddiwedd y ddeunawfed ganrif, yn ei pharcdir ei hun i'r dwyrain o Bwllheli. Mae ei phorthdy tyrog yn un anarferol a diddorol sy'n cyfrannu at leoliad pwysig y Neuadd. Cynigiwyd grant o £16,000 ar gyfer gwaith i'r porthdy gan gynnwys adnewyddu ei thŵr cloc.

YCHWANEGIAD B

**The Garden House, Cefnamwlch, Tudweiliog, Pwllheli**
Lleolir y Garden House, adeilad sylweddol sy'n enghraifft brin o dŷ haf Sioraidd, o fewn yr ardd â wal o'i chwmpas yng Nghefnamlwch. Grant am £1,600 i atgyweirio'r to a'r ffenestri.

## Sir Fynwy

**Barn Range yn Nhŷ Mawr, Pwll Glo'r Fforest, Y Fenni**
Ysgubor anarferol o fawr, gyda ffenestri â physt ar ffurf deimwnt, sy'n dyddio o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, gydag ychwanegiadau o'r ddeunawfed ganrif ac o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Grant o £19,827 ar gyfer gwaith atgyweirio strwythur y to a gwaith atgyweirio cyffredinol i'r drysau a'r ffenestri.

**Eglwys Tegfedd Sant, Llandegfedd**
Eglwys sy'n perthyn i raddau helaeth i'r ddeuddegfed ganrif, er iddi gael ei hailfodelu rywfaint yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg. Ceir arddangosfa fendigedig o henebion ar y waliau trwy'r eglwys sy'n perthyn yn bennaf i'r ddeunawfed ganrif. Grant o £9,000 i atgyweirio toeau corff yr eglwys a'r gangell a gosod llechi newydd arnynt, ac i atgyweirio ffenestri a gosod gwydr newydd ynddynt.

**Ysgubor yn Neuadd Great Pool, Llanwytherin, Y Fenni**
Ysgubor hardd a sylweddol ei maint yw hon o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Mae iddi sawl nodwedd o ddiddordeb, ac mae'n parhau i gael ei defnyddio at ddibenion amaethyddiaeth. Cynigiwyd grant, ar yr amod y cytunir ar gynllun gwaith addas, ar gyfer gwaith atgyweirio gan gynnwys adnewyddu'r drysau allanol, ailosod cladin estyll pren ac atgyweirio ac ailbwyntio gwaith cerrig..

**Treowen, Llanwarw, Trefynwy**
Tŷ rhestredig gradd 1 o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg gyda phaneli derw a lle tân Jacobeaidd. Cynigiwyd grant o £4,800 tuag at brynu ac ailosod sgrîn bren Jacobeaidd addurnedig, a symudasid o'r neuadd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

**Cyn Eglwys Annibynwyr, Stryd Glendower, Trefynwy**
Capel Clasurol mawreddog o ddechrau oes Fictoria. Mae iddo ffasâd â thri bae ac ar bob ochr i'r ffasâd ceir pilastrau o uchder llawn. Cynigiwyd grant o £124,000 tuag at gwblhau'r gwaith o adnewyddu'r adeilad.

## YCHWANEGIAD B

**Eglwys y Plwyf Sant Mabli, Llanfabli, Y Fenni**
Lleolir Eglwys Sant Mabli, eglwys ganoloesol sydd mewn cyflwr da, ar safle hynafol yn y man uchaf ym mhentref Llanfabli. Mae ganddi dŵr godidog a cheir y tu mewn iddi rwyllwaith gwreiddiol a manylion da gan gynnwys toeau, pisgina ynghyd â phulpud a rheiliau cymun mwy diweddar. Cynigiwyd grant o £33,500 i atgyweirio'r gwaith cerrig, y to, ffenestri ac i atgyweirio'r plastr y tu mewn i'r eglwys.

**Cwrt Llanfihangel, Llanfihangel Crucornau, Y Fenni**
Mae Cwrt Llanfihangel yn blasty rhestredig gradd 1 sydd o bwys pensaernïol a hanesyddol. Mae'r plasty, sy'n perthyn i ddiwedd yr Oesoedd Canol, wedi dabtlygu dros y canrifoedd ac mae ganddo nodweddion o sawl cyfnod sy'n dal mewn cyflwr da. Cynigiwyd grant o £40,000 ar gyfer ystod o waith y tu mewn i'r plasty a'r tu allan iddo.

**Court Farmhouse, Llanofer, Y Fenni**
Mae Court Farmhouse, yr adeilad hynaf ym Mharc Llanofer, yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg ac mae manylion da o bob cyfnod yn ei ddatblygiad i'w gweld yno o hyd. Cynigiwyd grant o £45,000 ar gyfer ystod o waith y tu mewn i'r adeilad a'r tu allan iddo.

**Eglwys y Santes Fair, Portskewett**
Lleolir Eglwys y Santes Fair, eglwys ganoloesol restredig gradd 1, yng nghanol pentref Portskewett. Nid yw wedi newid fawr ddim dros y canrifoedd. Grant o £72,500 ar gyfer gwaith atgyweirio gwaith cerrig a'r to.

## Castell-nedd Port Talbot

**Eglwys Illtud Sant, Castell-nedd**
Priodolir yr eglwys hon, sy'n perthyn i'r drydedd ganrif ar ddeg, i Illtud Sant ei hun y deëllir bod ganddo gell ar lannau Afon Nedd gerllaw. Pan adnewyddwyd yr eglwys yn ddiweddarach yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ychwanegwyd henebion diddorol i'r tu mewn i'r eglwys. Grant i adnewyddu'r eglwys yn ddarostyngedig i gynllun gwaith addas.

## Sir Benfro

**Y Felin, Stryd y Felin, Llandudoch**
Mae'r felin flawd hon o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn un o'r melinau dŵr gorau sydd wedi goroesi yn ne-orllewin Cymru, ac mae'n dal i weithio heddiw. Cynigiwyd grant o £1,170 tuag at atgyweirio'r olwyn ddŵr a rhannau cysylltiedig.

## YCHWANEGIAD B

**Bwthyn yn Nhretio, Tyddewi**
Saif yr adeilad brodorol hwn o'r ddeunawfed ganrif mewn pentref hanesyddol deniadol. Roedd y bwthyn yn enghraifft brin oedd wedi goroesi o'r dechneg o isdoi â rhaffau gwellt, sef techneg sydd yn gyfarwydd i ni o ddyrnaid yn unig o adeiladau yn Sir Benfro a Cheredigion. Cynigiwyd grant o £24,000 i adnewyddu'r to gan ddefnyddio'r dull dilys o isdoi.

**Eglwys Brynach Sant, Nanhyfer, Trefdraeth**
Mae eglwys Brynach Sant yn dyddio o'r chweched ganrif, ac mae ganddo dŵr unionsyth enfawr yn y pen gorllewinol. Adnewyddwyd yr eglwys ym 1864 gan R. J. Withers a hynny i safon dda ond mae'r eglwys fwyaf adnabyddus oherwydd y groes Geltaidd enwog sy'n sefyll wrth ei hochr. Grant o £25,000 ar gyfer ailosod llechi ar bob goleddf o'r to.

**Eglwys y Santes Fair, Y Stryd Fawr, Dinbych-y-pysgod**
Adeilad cerrig mawr a hardd sy'n sefyll ar sylfeini Cymreig-Normanaidd. Mae'r eglwys yn dyddio o ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg ac mae'n cynnwys llawer o feddrodau a henebion o ddiddordeb. Cynigiwyd grant o £17,500 i ailosod plwm ar gafn y to rhwng corff yr eglwys ac eil y gogledd, ac i ailosod llechi ar oleddfau'r to cyfagos.

**Panteg, Llanddewi Efelffre**
Mae Panteg yn enghraifft eithriadol o dŷ Sioraidd cynnar gyda manylion cywrain y tu mewn iddo. Grant o £900 i ailosod ffrâm lechi'r drws ac ar gyfer gwaith arall y tu allan i'r tŷ.

**Eglwys Annibynwyr y Tabernacl, Hwlffordd**
Adeilad o ddiwedd y ddeunawfed ganrif yw Eglwys y Tabernacl a drawsnewidiwyd yn feiddgar yn ystod y 1800au. Mae ei harddull yn arddurnedig gyda'i ffryntiad â stwco arno a'i gwaith cornisio cywrain. Cynigiwyd grant o £30,000 ar gyfer cynllun atgyweirio cynhwysfawr.

**The Shell House, Cilwendig**
Mae'r Shell House yn Nghilwendig, ffoledd gardd o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn un o'r ychydig adeiladau o'i fath yn ne-orllewin Cymru. Y tu mewn iddo mae paneli a chregyn wedi'u mewnosod ynddynt. Grant o £45,000 i adnewyddu'r adeilad cyfan.

## Powys

**Pont gerbydau haearn bwrw Neuadd Dolforgan, Ceri, Y Drenewydd**
Mae'r adeiladwaith hwn, pont haearn bwrw â llawr o estyll pren, sy'n dyddio o 1818, yn cynrychioli defnydd cynnar ac arloesol o haearn bwrw ac mae'n rhan bwysig o'r cynllun cynnar yn Neuadd Dolforgan. Grant o £26,400 i atgyweirio ac i adnewyddu'r bont.

## YCHWANEGIAD B

**Neuadd Trewern, Trewern, Y Trallwng**
Lleolir Neuadd Trewern, ffermdy ffrâm bren mawr sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg, ar orlifdir afon Hafren islaw Bryniau Breidden. Mae'r tŷ wedi bod yn eiddo i'r un teulu o ffermwyr ers sawl cenhedlaeth ac mae'n dal yn rhan o fferm weithredol. Cynigiwyd grant o £12,170 ar gyfer ystod o waith atgyweirio y tu mewn i'r ffermdy.

**Eglwys Llanbadarn Fawr (Eglwys Padarn Sant), Crossgates, Llandrindod**
Eglwys y plwyf sy'n perthyn yn bennaf i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw Eglwys Padarn Sant ac mae iddi ddrws Normanaidd â thympanwm go arbennig. Cynigiwyd grant o £9,750 i adnewyddu'r system ddŵr glaw haearn bwrw sy'n ddiffygiol.

**Eglwys Sant Mihangel a'r Holl Angylion, Llanfihangel Cwm Du, Crucywel**
Lleolir Eglwys Sant Mihangel, gyda'i thŵr sylweddol sy'n dyddio o'r bymthegfed ganrif, mewn lle amlwg ar gwr pentref Cwm Du. Grant o £37,500 ar gyfer gwaith atgyweirio ar raddfa fawr i'r to.

**Llynlloedd, Machynlleth**
Adeiladwyd Llynlloedd, ffermdy a berthynai i foneddigion ac a leolir ar gyrion Machynlleth, yn yr ail ganrif ar bymtheg. Mae nodweddion arbennig o gain i'w gweld ar y tŷ o hyd, yn enwedig y grisiau Jacobeaidd eithriadol a phaneli anarferol ac addurnedig. Grant o £2,000 i atgyweirio'r gwaith pren a'r gwaith plwm ac ar gyfer gwaith ailbwyntio.

**Hen Neuadd y Farchnad, Llanidloes**
Adeiladwyd Hen Neuadd y Farchnad, yr unig neuadd farchnad ffrâm bren o'i bath sydd wedi goroesi yng Nghymru, tua 1600. Grant o £16,000 i atgyweirio'r gwaith pren ac i ailblastro a gwyngalchu talcen y de.

**Castell Powys, Y Trallwng, Powys**
Mae Castell Powys, a fu ar un adeg yn un o gadarnleoedd y Cymry, yn adeilad eithriadol. Mae'n bosibl dilyn hynt yr adeilad wrth iddo ddatblygu o fod yn gastell canoloesol i fod yn blasty. Mae llawer o adeiladwaith allanol canoloesol yr adeilad wedi goroesi. Dyma'r fframwaith ar gyfer cyfres go arbennig o ystafelloedd, rhai ohonynt o bwysigrwydd eithriadol, a godwyd yn ddiweddarach y tu mewn i'r adeilad. Cynigiwyd grant o £22,000 i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i adnewyddu'r grisiau, y colofnresi a'r gwaith cerrig sy'n ffurfio'r fynedfa flaen ar yr ochr ddwyreiniol.

**Parc Stanage, Trefyclo**
Tirluniwyd Parc Stanage, plasty sylweddol a leolir mewn parcdir eang, gan Humphrey Repton, un o'r bobl bwysicaf a mwyaf dylanwadol yn hanes parciau tirlun ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Grant o £5,4000 i ailadeiladu ac aildoi libart y stablau ym mhen deheuol y tŷ.

YCHWANEGIAD B

## Rhondda Cynon Taf

**Eglwys Santes Catrin, Pontypridd**
Mae Eglwys Santes Catrin, gyda'i thŵr enfawr a'i meindwr cain, yn dirnod trawiadol yn nhreflun Pontypridd. Hefyd mae'r tu mewn i'r eglwys a adeiladwyd o frics yn anarferol. Grant o £64,378 i atgyweirio'r tŵr a'r meindwr ac i adnewyddu'r gwaith brics yn y gangell.

## Abertawe

**Yr Orenfa, Castell Pen-rhys, Llan-y-tair-mair, Penrhyn Gŵyr**
Er bod ei chynllun yn syml, mae'r orenfa ym Mhen-rhys yn rhan o grŵp diddorol o adeiladau sydd eu hunain yn rhan o ardd ac ystad. Mae hefyd o ddiddordeb hanesyddol oherwydd ei chysylltiad â dyddiau cynnar ffotograffiaeth; mae rhai o'r ffotograffau cynharaf sy'n bodoli yn cofnodi'r ffordd yr oedd yr orenfa'n arfer edrych. Grant o £10,702 i adnewyddu'r to a'r ffenestri.

## Tor-faen

**Cyn Ysgol Sant Pedr (Ysgol Wreiddiol), Church Road, Blaenafon**
Sefydlwyd yr ysgol Gothig hon, a leolir o fewn Tirlun Diwydiannol Blaenafon a ddynodir yn Safle Treftadaeth y Byd, ym 1815. Mae o ddiddordeb cenedlaethol fel yr enghraifft gynharaf sydd wedi goroesi o ysgol a sefydlwyd yng Nghymru mewn perthynas â gwaith dur ac mae'n debyg mai Ysgol Sant Pedr oedd yr ysgol gyntaf a adeiladwyd i'r pwrpas gan unrhyw ddiwydiannwr Cymreig ar gyfer plant ei weithlu. Mae'r ysgol hefyd yn unigryw am ei bod wedi cadw ei chymeriad pensaernïol gwreiddiol. Cynigiwyd grant o £82,500 ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol i'r tu allan.

## Bro Morgannwg

**Eglwys Sant Pedr, Old Cogan, Penarth**
Gwasanaethai'r eglwys fach hon bentref Cogan, pentref canoloesol a aeth yn anghyfannedd. Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yr eglwys yn segur ond fe'i hadnewyddwyd gan drydydd ardalydd Bute a ddarparodd hefyd gofeb i'w berthynas, James Corbett, a symbylodd y gwaith i adnewyddu'r eglwys. Grant o £13,000 tuag at osod offer dŵr glaw newydd o haearn bwrw; to llechi newydd; a gwaith atgyweirio strwythur y to pren.

## YCHWANEGIAD B

**Eglwys Brynach Sant, Llanfrynach, Y Bont-faen**
Mae eglwys Brynach Sant wedi'i lleoli yng nghefn gwlad agored filltir i'r gorllewin o'r Bont-faen. Mae'r eglwys yn dyddio o'r ddeuddegfed ganrif neu'r drydedd ganrif ar ddeg ac mae ganddi dŵr mawr sgwâr heb fwtresi. Grant o £29,500 i atgyweirio to'r tŵr.

## Wrecsam

**Eglwys Sant Chad, Holt**
Mae eglwys Sant Chad yn enghraifft eithriadol o eglwys y plwyf ganoloesol, ac yn aelod o grŵp godidog o eglwysi unionsyth yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Cynigiwyd grant o £10,275 i adnewyddu ac i atgyweirio baeau'r waliau allanol, pyst carreg y ffenestri ac ar gyfer gwaith ailbwyntio.

**Eglwys Sain Dunwyd, Bangor Is-coed**
Mae eglwys Sain Dunwyd yn eglwys ganoloesol hardd â thŵr yn dyddio o ddechrau'r ddeunawfed ganrif a llawer o nodweddion o ansawdd ac o ddiddordeb y tu mewn iddi. Cynigiwyd grant o £40,000 i aildoi eil ragfuriedig corff y gogledd ac i atgyweirio'r gwaith cerrig a'r ffenestri ar holl ddrychiadau'r adeilad.

**Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr, Llys Bedydd**
Adeiladwyd yr eglwys hon, a gynlluniwyd gan G. E. Street, rhwng 1872 a 1874, ar gyfer yr Arglwydd Hanmer. Mae strwythur syml ond soffistigedig yr eglwys yn troi o amgylch y tŵr a'r meindwr wythonglog yn y cornel de-ddwyreiniol. Cynigiwyd grant yn ddarostyngedig i gynllun gwaith addas yn cynnwys atgyweirio'r adeilad cyfan.

**Eglwys y Santes Fair, Y Waun**
Mae eglwys y Santes Fair yn dyddio o ddiwedd yr Oesoedd Canol a cheir llawer o nodweddion trawiadol y tu mewn iddi, yn enwedig yr arddangosfa odidog o gofebau o'r ail ganrif ar bymtheg, y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddau deulu o'r enw Myddleton a Trevor. Cynigiwyd grant o £40,000 i aildoi'r eglwys ac ar gyfer gwaith ailbwyntio y tu mewn iddi.

YCHWANEGIAD C

# Grantiau Ardaloedd Cadwraeth

**Deddf Cynllunio (Adeiladau Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Adran 77**

**Grantiau a Gynigiwyd 1 Ebrill 2000–31 Mawrth 2001**

Cynigiwyd grantiau tuag at gost cynlluniau a wnaeth gyfraniad pwysig at warchod neu wella ardaloedd cadwraeth.

Nodweddion pwysicaf yr adeiladau hyn yw eu tu allan a gellir ei weld o'r stryd.

| *Ardal Cadwraeth* | *Adeilad* | *Grant £* |
|---|---|---|
| **YNYS MÔN** | | |
| Biwmares | Church Room, Steeple Lane | 33,000 |
| **PEN-Y-BONT AR OGWR** | | |
| Merthyr Mawr | Church Cottage | 2,783 |
| | Holly Cottage | 1,933 |
| | West Lodge | 2,552 |
| **CAERDYDD** | | |
| Parc Cathays | Cofrestrfa Prifysgol Cymru | 13,304 |
| Llandaf | The Old House, 5 Cathedral Green | 9,000 |
| **SIR GAERFYRDDIN** | | |
| Caerfyrddin | Teras Picton/Parc Pen-llwyn | 13,050 |
| Llanboidy | Eglwys Brynach Sant | 28,000 |
| Llandeilo | Eglwys Teilo Sant (wal y Fynwent) | 22,000 |
| **CEREDIGION** | | |
| Aberaeron | Cynllun 'Wirescape' Aberaeron | 12,000 |
| **CONWY** | | |
| Gwytherin | Eglwys Santes Gwenfrewi | 30,000 |
| Llanelian yn Rhos | Wal mynwent Eglwys Sant Elian | 16,000 |

## YCHWANEGIAD C

| | | |
|---|---|---|
| **SIR DDINBYCH** | | |
| Dinbych | Eglwys y Santes Fair, Lenten Pool | 16,000 |
| Llandrillo | Eglwys Trillo Sant | 22,000 |
| Llanfair DC | Wal mynwent Eglwys y Santes Fair | 5,280 |
| Llangollen | Cynllun Atgyweirio Grŵp Llangollen, Cam 3A | 95,705 |
| Y Rhyl | Cynllun Atgyweirio Grŵp Ardal Gorllewin y Rhyl | 162,000 |
| **SIR Y FFLINT** | | |
| Llanasa | Eglwys Cyndeyrn Sant | 10,400 |
| **GWYNEDD** | | |
| Betws-y-coed | Eglwys Sant Mihangel, Old Church Road | 14,000 |
| Caernarfon | Bron Yr Aur, 41 Stryd Newydd | 7,890 |
| Tremadog | Neuadd Farchnad Tremadog | * |
| | 2 Stryd yr Eglwys/12, 14 a 16 Sgwâr y Farchnad | 9,300 |
| | 7 Sgwâr y Farchnad | 4,500 |
| | 'Taleifion', 4 Sgwâr y Farchnad | 1,800 |
| **SIR FYNWY** | | |
| Hendre | Sunnyside | 3,000 |
| Llandenny | Rock Farm | * |
| Llanofer | Ysgubor y Mans, Eglwys Llanofer | 12,000 |
| Trefynwy | Victoria Place, 14 Stryd y Priordy | 3,948 |
| **CASNEWYDD** | | |
| Caerllion | 6 Y Stryd Fawr | 9,000 |
| Eglwys Wynlliw | Roslyn House, 9 Park Square | 15,000 |
| **SIR BENFRO** | | |
| Hwlffordd | 22 Y Stryd Fawr | 750 |
| Dinbych-y-pysgod | Frogmore House, Lower Frog Street | 19,500 |
| | Ashley House | 10,500 |

CYNGOR ADEILADAU HANESYDDOL CYMRU

## YCHWANEGIAD C

| | | |
|---|---|---|
| **POWYS** | | |
| Llanidloes | 30 Great Oak Street | 2,500 |
| | Royal House, Heol Penrallt | 82,240 |
| Machynlleth | Eglwys Sant Pedr (wal y dwyrain) | 60,000 |
| Meifod | Vyrnwy House | 600 |
| Y Trallwng | 2 Clive Place, Severn Road | 1,950 |
| Y Drenewydd | Eglwys Beuno Sant, Bettws Cedewain | 25,600 |
| **ABERTAWE** | | |
| Treforys | 66 Stryd Martin | 8,125 |
| Pontardawe | Eglwys y Plwyf Sant Ioan, Cilybebyll | 45,200 |
| **TOR-FAEN** | | |
| Blaenafon | Cyn Ysgol y Babanod, Sant Pedr, Heol yr Eglwys | 24,437 |
| | 15–19 Broad Street | 58,000 |
| **BRO MORGANNWG** | | |
| Llanilltud Fawr | To Hesg, Stryd Colhough | 4,200 |
| Saint Hilari | The Bush Inn | * |
| | Little Hall Cottage | 5,570 |
| **WRECSAM** | | |
| Wrecsam | Eglwys y Drindod, Grosvenor Road | 51,560 |

* Cynlluniau yr argymhellodd y Cyngor y dylid rhoi grant iddynt ond yn ddarostyngedig i amodau, megis cytuno ar gynllun atgyweirio addas, cyn y penderfynir ar lefel y grant.

YCHWANEGIAD CH

# Rôl a Chyfeiriad Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru yn y Dyfodol

**Cefndir**

Corff cyhoeddus yw Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru a noddir gan y Cynulliad ac a sefydlwyd o dan ddeddfwriaeth sylfaenol — sef Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953; ei rôl yw rhoi cyngor annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru ac, yn arbennig, ar geisiadau gan Cadw am grant ar gyfer atgyweirio adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol neu ar gyfer gwaith a wnaiff gyfraniad pwysig at warchod neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth.

**Aelodaeth**

Mae'r Cyngor yn cynnwys arbenigwyr mewn gwarchod adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol a phensaernïol. Mae ei Gadeirydd yn derbyn cyflog bach ond ni thelir y chwe aelod arall; penodir aelodau'r Cyngor gan y Cynulliad. Mae'r Cadeirydd hefyd yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Cadw, sy'n cyfarfod bob chwarter i arolygu perfformiad cyffredinol Cadw.

**Adroddiad Blynyddol**

Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod CAH yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad, sydd wedyn yn cael ei gyhoeddi.

**Rôl HBC**

Ceir cylch gorchwyl y Cyngor yn Atodiad A.

Mae CAH yn cyfarfod yn ffurfiol bum gwaith y flwyddyn, gan gynnal cyfarfodydd busnes a gwneud ymweliadau ag eiddo ledled Cymru, y gofynnwyd am grant ar eu cyfer. Mae'r Cyngor wedi cynnal dros 200 o gyfarfodydd. Yn ogystal, ymgynghorir ag aelodau yn unswydd ar faterion dadleuol neu faterion sy'n achosi pryder; yn aml mae aelodau yn cynnal archwiliadau ad hoc o adeiladau gan gynnig cyngor pan na fydd yn ymarferol neu'n angenrheidiol i'r Cyngor cyfan ymweld â hwy. Daeth arolwg o'r Cyngor ym 1997 i'r casgliad ei fod yn darparu ffynhonnell effeithlon a chost-effeithiol o gyngor arbenigol annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd ac y dylid ei gadw. Bwriedir cynnal arolwg pellach yn 2002–2003.

## YCHWANEGIAD CH

Prif ffocws y Cyngor yw ystyried ceisiadau unigol am grantiau a bu'n llwyddiannus wrth sicrhau nad yw nifer fawr o adeiladau hanesyddol pwysig yn cael eu colli i'r cenedlaethau i ddod o ganlyniad i ddirywio, dadfeilio neu hyd yn oed o ganlyniad i gael eu dymchwel. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi meini prawf i'w defnyddio wrth ystyried a yw adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol eithriadol; arolygwyd y meini prawf hyn ym mis Tachwedd 2000 ac fe'u rhestrir yn Atodiad B.

Mae rôl cynllun grantiau cyfredol y Cyngor a Cadw ar gyfer adeiladau hanesyddol wedi gweithio'n dda ers blynyddoedd lawer. Cyfeiriwyd grantiau bron yn ddieithriad at waith atgyweirio'r adeiladwaith hanesyddol, yn hytrach nag at waith a fyddai'n newid yr adeiladwaith hwnnw neu'n gosod rhywbeth arall yn ei le. Ystyriwyd rhyw 202 o geisiadau unigol am grant gan CAH yn 2000–2001, gyda'r canlyniad bod Cadw wedi cynnig 116 o grantiau gyda gwerth o tua £3.7m. Hefyd bu'r Cyngor yn ystyried dyrannu arian i awdurdodau lleol ar gyfer atgyweirio adeiladau hanesyddol o dan gynlluniau cytûn trefi hanesyddol yr awdurdodau lleol a Cadw ac ar gyfer projectau o dan Fenter Treftadaeth y Dreflun Cronfa Treftadaeth y Loteri.

### Cyfeiriad CAH yn y Dyfodol

Mae Cadw a CAH yn ymwybodol bod angen arolygu'r trefniadau ar gyfer rhoi grantiau yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion amgylchedd hanesyddol Cymru yn awr ac yn y dyfodol a bod adnoddau'n cael eu targedu lle y mae eu hangen fwyaf. O ran yr adeiladau sy'n derbyn grant mae'r pwyslais wedi tueddu i symud oddi wrth dai mawr i gynnwys ystod eang o adeiladau a strwythurau hanesyddol eraill, megis eglwysi a chapeli sy'n cael eu defnyddio, eglwysi cadeiriol, adeiladau brodorol, nodweddion adeiledig mewn gerddi hanesyddol ac, yn arbennig, grantiau ar gyfer gwaith brys i adeiladau sydd mewn perygl o gael eu dinistrio. Hefyd dros y blynyddoedd daethpwyd i werthfawrogi treftadaeth fwyfwy ac i sylweddoli bod atgyweirio ac ailddefnyddio adeiladau yn ei hanfod yn ddefnydd cynaliadwy o adnoddau.

O gofio bod yr amgylchiadau yn newid, bu CAH yn gweithio gyda Cadw i ystyried systemau newydd ar gyfer rhoi grantiau i adeiladau hanesyddol, gan symud i ffwrdd o'r dull hollgynhwysol presennol tuag at gynllun mwy strwythuredig sydd â blaenoriaethau cliriach ac sy'n fwy tryloyw ac yn fwy atebol i ymgeiswyr.

Wrth ystyried ei rôl a'i amcanion cyffredinol, mae CAH yn fwyfwy ymwybodol o'r gwerth ychwanegol sydd i'r gwaith o warchod ein treftadaeth — o ran hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a chyfrannu at y broses o adfywio cymdeithasau ac economïau lleol. Wrth wneud hyn, mae CAH yn ymwybodol na ddylai edrych ar ei waith mewn gwacter eithr y dylai annog Cadw ac asiantaethau eraill i gydweithio.

## YCHWANEGIAD CH

Mae CAH yn croesawu dull gweithredu Menter Treftadaeth y Dreflun sy'n dod ag asiantaethau megis Cronfa Treftadaeth y Loteri, awdurdodau lleol, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Cadw at ei gilydd drwy warchod adeiladau hanesyddol. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi dull Cadw o gyfrannu cymorth grant i gynlluniau atgyweirio grŵp tai awdurdodau lleol mewn ardaloedd cadwraeth i gwrdd â chostau atgyweirio adeiladau i safonau cadwraeth. Byddai'r Cyngor yn annog creu partneriaethau tebyg wrth i awdurdodau ystyried y dull newydd o weithredu y mae Cadw yn ei gymeradwyo ar gyfer cynlluniau trefi hanesyddol.

Wrth wneud argymhellion sy'n galw am ddefnyddio arian cyhoeddus, bydd CAH, ynghyd â Cadw, yn edrych am ddulliau o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o adeiladau hanesyddol ac o annog mwy o'r cyhoedd i ymweld â hwy, yn cynnwys, ble bynnag y bo modd, ei gwneud yn bosibl i fwy o bobl anabl gael mynediad iddynt.

Fel corff annibynnol, bydd CAH hefyd yn parhau i dynnu sylw Cadw at faterion o bwys, gan gynnwys goblygiadau i Gymru yr arolwg o'r amgylchedd hanesyddol a gynhaliwyd yn Lloegr; bydd yn parhau i fabwysiadu safbwynt annibynnol a bydd yn rhagweithredol wrth fynd i'r afael â materion allweddol.

**Amcanion Polisi ar gyfer 2001 a thu hwnt**

Bydd CAH yn

- cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar geisiadau unigol am grantiau o fewn ei gylch gorchwyl a'i feini prawf cyhoeddedig;
- cyfrannu at y strategaeth ehangach o hyrwyddo gwaith gwarchod yr holl adeiladau sydd, yn ei farn ef, o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol eithriadol a'r gwaith o wella ardaloedd cadwraeth;
- datblygu a chynnal golwg strategol eang ar amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n pennu lle i adeiladau o bob math ac sy'n cymryd i ystyriaeth amrywiaeth daearyddol a chymdeithasol;
- rhoi ystyriaeth lawn i egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd gan sicrhau bod y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r adeiladau hynny sydd â'r angen mwyaf, a hynny o fewn cyd-destun trefniadau Cadw ar gyfer rhoi grantiau i adeiladau hanesyddol, fel y sicrheir bod argymhellion yn cael eu gwneud mewn modd teg ac agored;
- sicrhau bod ei argymhellion yn cynrychioli'r 'gwerth gorau'; a gosod safonau ansawdd o ran gwarchod y dreftadaeth adeiledig;
- hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau eraill i sicrhau cysonder o ran ymagwedd a chydlyniad yn yr amgylchedd hanesyddol;
- hyrwyddo'r cyfraniad cadarnhaol y gall gwarchod adeiladau hanesyddol ei ddwyn i strategaethau adfywio a chynaliadwyedd ehangach;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth ac annog mwy o fynediad i'r cyhoedd i eiddo sy'n derbyn cymorth gan Cadw.

YCHWANEGIAD CH Atodiad A

# Cylch Gorchwyl

1. Cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar arfer ei bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 fel y'i diwygiwyd, Deddf Cynllunio (Adeiladau Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac ar faterion cyffredinol eraill, sef:

  i. rhoi grantiau a benthyciadau tuag at atgyweirio neu gynnal a chadw adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol neu eu cynnwys neu dir sy'n cyffinio â hwy ynghyd â'u gerddi neu diroedd eraill o ddiddordeb hanesyddol eithriadol;
  ii. caffael adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol, trwy eu prynu, eu prydlesu neu fel arall, neu drwy eu derbyn yn rhodd; neu gynnwys y cyfryw adeiladau neu'r tiroedd sy'n cyffinio â hwy neu gynnwys adeiladau y mae'r Cynulliad yn warcheidwad arnynt o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, neu gynnwys adeiladau a ymddiriedwyd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a chynghori'r Cynulliad ar werthu unrhyw eiddo a gaffaelwyd neu a dderbyniwyd yn y modd hwnnw.
  iii. rhoi grantiau i awdurdodau lleol tuag at gaffael adeiladau o dan Adran 47 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, ac i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol tuag at gaffael adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol;
  iv. rhestru adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac arfer swyddogaethau eraill y Cynulliad mewn perthynas ag adeiladau o'r fath o dan Ddeddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

2. Cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar arfer ei bwerau o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 fel y'i diwygiwyd i roi grantiau neu fenthyciadau tuag at gynlluniau sy'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at warchod neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth a rhoi grantiau tuag at atgyweirio adeiladau a gynhwysir mewn Cynllun Tref Hanesyddol ac sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol.

3. Rhoi cyngor i'r Swyddfa Trethi Cyfalaf a'r Trysorlys ar eithrio adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol eithriadol, y tir sy'n cyffinio â hwy, a thir o ddiddordeb hanesyddol eithriadol o Dreth Drosglwyddo Cyfalaf.

4. Cyflwyno cynrychioliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os ymddengys i'r Cyngor fod angen gweithredu ar unwaith o dan Ran 1 o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953.

5. Arolygu'n gyson gyflwr cyffredinol adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol ledled Cymru. Cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad ar gyflwr y cyfryw adeiladau hyn ac ar ffyrdd o ddod o hyd i ddefnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol. Gwneud awgrymiadau ynghylch defnyddiau posibl ar gyfer adeiladau penodol pan fydd y Cynulliad yn gofyn iddo.

YCHWANEGIAD CH Atodiad B

# Diffiniad o Adeiladau o Ddiddordeb Hanesyddol neu Bensaernïol Eithriadol

Mae Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru yn ystyried rhinweddau adeiladau o bob math yng Nghymru. Mae Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 yn darparu mai dim ond enghreifftiau y bernir eu bod o 'ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol' sy'n gymwys ar gyfer derbyn grantiau. Mae asesu adeiladau bob amser yn fater o farn; gellir barnu gwahanol fathau o adeiladau — addoldai, tai, adeiladau diwydiannol, ac ati — mewn ffyrdd gwahanol. Nid oes unrhyw reolau cadarn y gellir eu defnyddio i fesur a yw cais yn gymwys ar gyfer derbyn grant ai peidio, ond yn ogystal â chyflwr yr adeilad, fel rheol cymerir i ystyriaeth y meini prawf canlynol (nad ydynt yn nhrefn pwysigrwydd):

**Diddordeb Hanesyddol**

a. cysylltiad cryf â digwyddiad hanesyddol o bwys;
b. cysylltiad cryf â pherson pwysig mewn hanes;
c. cysylltiad cryf â mudiad pwysig (er enghraifft crefyddol, gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol);
ch. cysylltiad cryf â chyflawniad diwylliannol neu ddiwydiannol pwysig.

**Diddordeb Pensaernïol**

a. ansawdd y bensaernïaeth (gall hyn ddeillio'n gymaint o ffurf syml adeilad brodorol ag o fanylion pensaernïol moethus addoldy neu faintioli mawreddog plasty);
b. ei bwysigrwydd o fewn lleoliad o ansawdd pwysig (tirlun, treflun, ayb.);
c. ei bwysigrwydd fel enghraifft nodweddiadol o waith pensaer o bwys, neu fel cyfraniad o bwys i hanes pensaernïaeth;
ch. ei bwysigrwydd fel enghraifft glasurol o ddull penodol, mudiad neu fath o adeilad;
d. ei bwysigrwydd fel enghraifft brin o fath penodol o adeilad, ffurf strwythurol benodol ar adeilad neu ddull hanesyddol penodol o adeiladu sydd wedi goroesi yn cynnwys adeiladau lleol, a fu gynt yn nodweddiadol, sydd erbyn hyn mewn perygl o ddiflannu;
dd. ei bwysigrwydd fel enghraifft o gyfraniad arloesol at dechnoleg adeiladu.